ECO'R WYDDFA

Rhif 192 GORFFENNAF 1993 Pris 25c

Enillwyr Tlws yr Eco 1993

Tîm Bethel 'A' — enillwyr y Tlws am eleni. Gweler y dudalen gefn.

HEDFAN I GAEREDIN I GYNRYCHIOLI CYMRU

Mae pobl fusnes lleol a Chadeirydd Cyngor Sir Gwynedd ymhlith y rhai a safodd yn y bwlch i alluogi dau ddisgybl chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, i hedfan i Gaeredin i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth *'BT Young Consumers of the Year'*.

Enillodd tîm Brynrefail yr hawl i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth yn gynharach yn y flwyddyn ond trwy gyd-ddigwyddiad anffodus roedd dau allan o'r pedwar aelod o'r tîm yn sefyll arholiadau Bywydeg Lefel-A ar fore'r gystadleuaeth.

Medd John Grisdale, Prifathro Ysgol Brynrefail: 'Roedd tîm yr ysgol ar fin tynnu allan o'r gystadleuaeth pan ddaeth nifer i'r adwy drwy gynnig talu'r gost o hedfan y ddau ddisgybl i'r Alban yn syth ar ôl iddynt gwblhau eu arholiad'.

Ddydd Mercher diwethaf hedfanodd Mark a Tudor Jones, Llanrug, o Faes Awyr Llandwrog i ymuno â Jerome Moran o Lanberis a Dyfan Siôn o Ddeiniolen, i ateb cwestiynau ar safonau prynu a gwerthu nwyddau yn y ffeinal y mae 1,000 o ysgolion a 5,000 o ddisgyblion yn cystadlu ynddi.

Y bwriad gwreiddiol oedd hedfan yr hogiau o Lerpwl ond daeth 14 o bobl busnes lleol i'r adwy i alluogi'r awyren i hedfan o Faes Awyr Llandwrog.

Medd eu llefarydd, Alwyn Jones, Cwmni Blodau Racca, Penisarwaun: 'Roedd pawb yn awyddus iawn i gyfrannu ar ôl clywed am y bygythiad na fedrent gynrychioli Cymru'.

Y bobol a gyfrannodd oedd Modurdy John Trevor, Llanrug; Gwesty Dolbadarn, Llanberis; Co-op, Llanrug; Modurdy Beran, Deiniolen; Mackenzie & Brown, Caernarfon; Wavell Roberts, Llanrug; Bysus Arvonia, Llanrug; Siop Trin Gwallt Elaines, Llanrug; Alwyn a Sarah Jones, Racca; Y Brodyr Morris, Becws Cwm-y-glo; Crefftau Fferm Cae Coch, Llanberis; Sea Fresh Fish Shop, Llanberis; Gwynfa Pritchard, Llefrith, Llanrug; a Mr T. Griffiths, Bryncelyn, Llanrug.

Ar ran llywodraethwyr Ysgol Brynrefail diolchodd y Cadeirydd, John Roberts, i'r gymuned fusnes leol am sefyll tu cefn i'r Ysgol: 'Mae'n braf gweld eu hewyllys da a'u haelioni'n galluogi'r tîm i gymryd rhan yn y ffeinal. Daeth y tîm a'u hathrawon â chlod i'r Ysgol a'r ardal.'

Mark a Tudor Wyn Jones, Jerome a Michael Moran a Dyfan Siôn, yn profi dull tipyn arafach o deithio yng Ngorsaf Trên Bach yr Wyddfa, Llanberis.

AWDURES TIR NA N-OG

Emily Huws yn trafod ei llyfr gyda phlant hynaf Ysgol Bontnewydd.

Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r awdures plant Emily Huws ennill gwobr Tir Na N-Og. Gwobrau yw'r rhain a gyflwynir yn flynyddol gan y Cyngor Llyfrau Cymraeg i awduron y llyfrau gorau i blant a phobl ifanc. Cyd enillydd ffuglen orau'r flwyddyn oedd Emily Huws y llynedd, ond eleni mae'r awdures boblogaidd a hynod doreithiog ar ben ei hun.

Dyfarnwyd y wobr iddi am ei llyfr *Tisio Tshipsan*. Mae'r llyfr hwn sy'n rhan o gyfres o chwech yn adrodd hanes teulu lliwgar Rhian Mai. Pwy ydi Rhian Mai clywaf chi'n holi? Gofynwch i'ch plant, maent hwy eisoes yn gyfarwydd â giamocs y teulu hwn. Chwithau rieni — cymrwch sbec y tu mewn 'tae ond i ddotio at luniau bendigedig Jac Jones. Hwyrach wedyn y cewch chi hyd yn oed yr awydd i gyfarfod Rhian Mai, Jas, Tracey Llywela a chymeriadau hynod fel Sam Sgod a Phil Ffish.

Dyma berl bychan o lyfr unwaith eto gan awdures sy'n mynnu mai blynyddoedd o fyw a gweithio ymhlith plant ysgol fu'n ei sbarduno a'i symbylu i sgwennu.

Cyhoeddir y llyfr gan Wasg Gomer a'r pris yw £2.50

(Mae adolygiad o'r llyfr yn ymddangos ar dudalen yr ifanc.)

ATODIAD ARBENNIG!
I DDATHLU
CANMLWYDDIANT
CO-OP LLANRUG — tu mewn

ECO'R WYDDFA

Rhif 192
GORFFENNAF 1993

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (670115)
DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)
FFOTOGRAFFWYR
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (674669)
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)
Gareth Williams, Angorfa, Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)
Tony Storey, Awel y Mynydd, Ceunant, Llanrug (650600)
TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)
Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Ty Hen, Waunfawr (650599)
TREFNYDD GWERTHIANT
Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (675510)
TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)
TREFNYDD PLYGU
Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (0248 670726)
BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (673536)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (676733)
NANT PERIS: Elwyn Searell Jones, Dwyfor, Nant Peris (870440)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEDI 9
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, AWST 30
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
AWST	–	–	–	–
MEDI	MEDI 9	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 28	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
RHAGFYR	RHAGFYR 2	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034

Dymunaf ddiolch i'r cysylltwyr am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i fy nghynorthwyo i drefnu'r rota am y flwyddyn.

CYFARFOD BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

Daeth deuddeg ynghyd i'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail ar Fehefin 9fed. Roedd pedwar arall wedi ymddiheuro na allent fod yn bresennol. Cafwyd adroddiadau gan y gwahanol swyddogion a chan y Pwyllgor Llywio. Etholwyd Arwel Jones yn Gadeirydd. Cadarnhawyd mai Siân Gwenfron, Llanrug, yw Trefnydd Gwerthiant newydd yr Eco i olynu Arwyn Roberts. Ail etholwyd gweddill y swyddogion.

Diolchwn yn gynnes iawn i Arwyn Roberts, Hafle, Llanrug, a fu'n Drefnydd Gwerthiant yr Eco ers y rhifyn cyntaf. Treuliodd Arwyn un nos Iau y mis ers deunaw mlynedd bellach yn gofalu bod yr Eco yn cychwyn ar ei daith o'r man plygu i law'r darllenwyr. Mae'n haeddu seibiant erbyn hyn. Diolch, Arwyn, am dy holl waith.

INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN
i 31ain Mawrth, 1993

DERBYNIADAU

Gwerthiant			£4987.25	
Hysbysebion			6713.80	
Rhoddion			482.60	
Grantiau:				
Cymdeithas Gelfyddydau		1128.73		
Cynghorau Cymuned:				
Betws Garmon/Rhyd-ddu	10.00			
Llanberis	50.00			
Llanddeiniolen	200.00			
Llanrug	300.00			
Waunfawr	50.00			
		610.00	1738.73	
Llog			50.44	
Incwm Arall			130.00	
				£14102.82

TALIADAU

Argraffu	13373.01	
Ffotograffiaeth	146.63	
Amlenni, papur, etc	37.00	
Stampiau	225.95	
Gwobrau Croesair	60.00	
Cystadleuaeth Pêl-droed	20.95	
		£13863.54
Incwm yn fwy na Gwariant		£239.28

Mantolen ar 31ain Mawrth, 1993

Cronfa'r Eco, 1/4/1992	£4437.67
Elw am y flwyddyn	239.28
Cronfa'r Eco 31/3/1993	£4676.95

G. HUGHES, *Trefnydd Ariannol*

Heliwch eich traed am fargen i
SIOP ESGIDIAU GLENS
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470

CYMANFA GANU HENADURIAETH ARFON

yng Nghapel
CROESYWAUN, WAUNFAWR
Nos Sul, Gorffennaf 4, 1993
am 6.00 o'r gloch

Arweinydd: Miss Joan Wyn Hughes, Dolgellau
Organydd: Mr Gwilym Vaughan Jones, Twrgwyn
Llywydd: Parchg John Morris

OSMOND SHAW
DEINIOLEN
GWERTHU – TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL PLAS GWYN
Pontrug, Caernarfon
Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan artistiaid lleol
Ar ffordd A4086
Caernarfon – Llanberis
Ffôn/ffacs: 0286 672619
Richard S. Humphreys

NEWYDDION O GAEATHRO

Clwb Ger-y-tân: Yng nghyfarfod ola'r tymor bu'r aelodau yn cyfarfod yn Bryn Eisteddfod, Clynnog, pryd y ffarweliwyd ag un o aelodau ffyddlonaf y Clwb, sef Mrs Beryl Roberts, Gerallt. Dymunwyd hapusrwydd, iechyd, a hir oes iddi hi a'i phriod, Eric, yn eu cartref newydd ym Mangor. Cyflwynwyd anrheg i Beryl gan Mrs Marian Hughes ar ran yr aelodau a'i ffrindiau.

Dymuna Mrs Beryl Roberts ddatgan ei diolch am y gefnogaeth a dderbyniodd yn ystod ei chyfnod fel gohebydd y pentref. O hyn ymlaen Clive James, Hafan, fydd y gohebwr a Rhiannon Williams, Cefn Rhos Isaf yng ngofal y dosbarthu. Hyd yma ni ddaeth enw ymlaen ar gyfer trefnu plygu. Os oes rhywun â diddordeb cysylltu â Clive James.

'P'le aeth yr R?'

gan Deio

A fuoch chi'n teithio rhwng Caernarfon a Bangor ddechrau Mehefin eleni? Os y buoch, yna mae'n siŵr ichwi weld cannoedd o'r cyrn pigfain conaidd plastig gwyn a choch sy'n dargyfeirio rhywun ar hyd ffordd wahanol i'r arferol.

Pwy a glywais yn honni dudwch mai'r person mwyaf cyfoethog ym Mhrydain yn ystod y dirwasgiad mawr y nawdegau yw'r person a feddyliodd am y côn a welir ar hyd ffyrdd pan wneir gwaith adgyweirio arnynt? Dyna un busnes llwyddiannus beth bynnag!

Ond i hyn yr oeddwn yn cychwyn! Ger cylchfan 'Tŷ Golchi' wrth ymyl wal y Faenol mae'r gwaith ar ffordd osgoi y Felinheli'n ymddangos fel pebae'n mynd ymlaen yn hwylus. Ond wele'n syth ar ôl y Sulgwyn, dyma arwydd mawr melyn yn ymddangos i nodi fod cylchfan newydd dros DO i gael ei defnyddio. 'Llithriad bychan,' meddwn wrth y teulu. 'Na'n wir,' meddai'r hynaf o'r plant acw, 'mae'r un ar allt Faenol yn anghywir hefyd'. Ac yn wir, wele un arall gerllaw Capel Graig ac un arall ar ffordd waelod Bangor i gyd yn nodi fod y gylchfan newydd yn un tros DO. Wele fi'n arfer meddwl fod to bob amser uwch ein pennau a meddyliwch am gael rhywbeth arallfydol fel cylchfan tros hwnnw wedyn!

Mae ochr ddifrifol i'r mater hefyd onidoes? Yn aml ceir hwyl digon diniwed ar raglenni teledu megis *'That's Life'* sy'n dangos llun o ryw arwydd neu arwyddion sy'n creu digrifwch — dim o'i le ar hynny. Yr hyn sydd gennym yn yr achos neilltuol yma ydyw cyfres o arwyddion gyda'r un camgymeriad arnynt. O bosibl, mae ei weld unwaith yn ddigri ond esgeulustod ieithyddol yw caniatáu cynifer o arwyddion anghywir. Gallaf ddychmygu rhywun yn rhywle'n parablu'r un hen stori ei bod yn rhy ddrud ar ôl bod yn rhy ddiweddar yn canfod y camgymeriad. Ysgwn i a ganiateid sefyllfa o'r fath yn y fersiwn Saesneg o'r neges?

Nodwedd arall sy'n peri pryder wrth gwrs yw fod cymaint o adnewyddu ac adgyweirio ffyrdd y dyddiau yma. Hwyrach fod nifer cerbydau wedi cynyddu tu allan i bob rheswm ond wedyn mae technoleg a gwybodaeth wyddonol am gryfder mwynau ag ati wedi datblygu i gydfynd â'r cynnydd mewn traffig debygwn i. Eto, gwelir sylfeini ffyrdd yn cael eu hailgodi'n gyson heb sôn am ail-wynebu. Beth sydd o'i le tybed?

Cyn cloi, ofnaf fod ein gwledydd ar yr ynys yma mewn cryn dipyn o drafferthion ariannol beth bynnag fo'r rheswm am hynny. Ymddengys nad oes dim yn ddiogel y dyddiau hyn gyda bygythiadau am dalu am bob gwasanaeth yr ydym wedi arfer ei gael yn rhad neu am y nesaf peth i ddim. Hynny mewn cyfnod pan mae miliynau'n ddi-waith ac yn byw ar nawdd y wlad. Dyna'r 'Heliwr' wedyn, cyn ben dyn Cymru, yn gwrthwynebu uchafswm oriau gwaith o 48 yr wythnos i weithwyr Prydain. Hynny mae'n debyg er mwyn gwarchod buddiannau y cyflogwyr mawr sy'n credu mewn elw **mawr** i'r cwmni, gwaith **mawr** gan y gweithwyr a hynny am gyflog **bychan** yn aml. Y gweithwyr hynny wedyn yn gorfod gweithio tros-amser er mwyn cael cyflog teg a hynny'n gwneud yr oriau mewn wythnos yn fwy na phedwar dwsin. Ie'n wir, creu Hong Kong i Ewrop efallai.

Ni welaf ddim o'i le ar i bawb gael cyfle teg i weithio a hynny am gyflog teg!

Yn olaf un, i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa*, hoffwn fynegi fy niolchiadau diffuant i chwi, y golygyddion a phawb sy'n ymwneud â'r papur am bob cefnogaeth ac ymateb a dderbyniais i'r gyfres hon o bytiau. Dymunaf bob llwyddiant i'r Papur Bro gyda'r mwyaf diddorol yng Nghymru gyfan a sicrhaf chwi y byddaf yn parhau i awchu am ei ddarllen bob mis.

Pob hwyl i chwi i gyd tros wyliau'r haf p'le bynnag y byddwch!

THE SEIONT MANOR HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY HAMDDEN

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

ANTUR PADARN

Ymuno yn y dathlu

Daeth anrhydedd i ran Antur Padarn yn ystod mis Mehefin pan wahoddwyd y Cadeirydd, Glyn Tomos, i gyflwyno anerchiad mewn seminar a gynhaliwyd yn Llanwrtyd ar yr 8fed o Fehefin i ddathlu pum mlynedd o weithredu cymunedol o dan y cynllun Jigso. Nôd cynllun Jigso yw hyrwyddo gweithredu cymunedol ledled Cymru ac mae Antur Padarn yn enghraifft o hynny. Hefyd fe gynrychiolwyd yr Antur yn y seminar gan Robin Jones (Swyddog Datblygu) ac Emyr Tomos (Is-gadeirydd).

Noson lwyddiannus iawn

Llwyddodd yr Antur i gynnal noson gymdeithasol hynod o lwyddiannus yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, ar nos Wener, 28ain o Fai. Roedd rhan gyntaf y noson yng ngofal Dyfan Roberts wrth iddo lywio noson hwyliog dros ben yng nghwmni dau dîm oedd yn cynnwys y Prifardd Myrddin ap Dafydd, Gari Wyn, Eirug Wyn a Geraint Lovgreen. Yna yn ail ran y noson cafwyd perfformiad graenus arferol gan Tecwyn Ifan a'r Band. Cafwyd noson i'w chofio ac un a fydd yn aros yn y cof am flynyddoedd. Diolch i'r artistiaid oll am eu cyfraniadau; i Aneurin Jones a'i staff; i fusnesau lleol am eu rhoddion tuag at y raffl ac i bawb am eu cefnogaeth. Roedd elw'r noson tuag at waith yr Antur.

Cofiwch am y Swyddfa

Cofiwch bod croeso i chwi alw i weld Robin Jones, Swyddog Datblygu, bob bore dydd Gwener rhwng 10 ac 1 o'r gloch yn adeilad Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis. Cofiwch alw i'w weld.

Cyngerdd Ysgolion Cynradd

Cafwyd noson arbennig yn Ysgol Brynrefail gyda plant ysgolion cynradd yr ardal yn rhoi deng munud o eitemau yr un ac fe gafwyd cyfraniad graenus iawn gan bob ysgol. Diolch i'r ysgolion am gymryd rhan.

Y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Angorfa, Llanberis, ar nos Fercher, 7fed o Orffennaf am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

ANTUR WAUNFAWR

Yn ystod y mis bu dau ddigwyddiad o bwys yn hanes yr Antur.

Dro yn ôl cawsom y newydd fod y Swyddfa Gymreig wedi awdurdodi grant o £80,000 i'r Cwmni o dan Gynllun Menter Wledig y Swyddfa. Gwnaed y cais er mwyn ei gwneud yn bosibl i swyddfeydd, lle bwyta a man cyfarfod gael eu hadeiladu er galluogi bythynod Bryn Pistyll gael eu defnyddio i'w priod waith o fod yn dai annedd. Pan hysbyswyd ni gan Syr Wyn Roberts fod y cais am grant wedi llwyddo, ysgrifennodd i ddweud fod y llwyddiant yn: *cydnabod y gwaith eithriadol y mae Antur Waunfawr wedi'i wneud dros y blynyddoedd, ac fod y cyfryw gyraeddiadau i'w llongyfarch gan eu bod yn mynd ag egwyddorion y Strategaeth Anfantais Meddyliol yn eu blaen.*

Daeth Syr Wyn Roberts i Antur Waunfawr ar Fehefin 4, a bu ef a Mr Dafydd Wigley yn rhoi cychwyn swyddogol i'r gwaith adeiladu. Daeth tyrfa o bobl yr ardal i'r cyfarfod i fwynhau'r seremoni a'r bwyd oedd wedi ei baratoi ar eu cyfer.

Roedd yr ail ddigwyddiad ynghlwm â sefydlu Antur Waunfawr.

Ym Mehefin 1983 y cynhaliwyd y cyfarfod cyhoeddus yn Festri Capel y Waun pan benderfynodd y pentref roi sêl eu bendith ar y bwriad i sylfaenu'r Antur. Nos Sadwrn, Mehefin 19, 1993, oedd noson y Barbeciw Blynyddol, a manteisiwyd ar y cyfle i ddathlu degfed pen-blwydd y cyfarfod sefydlu. Roeddem newydd gael gwybod fod y Cwmni wedi ennill £1,000 mewn cystadleuaeth am fod y cynllun gorau er lles yr amgylchedd — cystadleuaeth a drefnwyd ar y cyd gan gwmni David McLean a'r *Daily Post*. Daeth cynrychiolwyr y cwmnïau i gyflwyno'r wobr, ac ar yr un pryd rhoisant deisen pen-blwydd yn anrheg i nodi'r achlysur. Er i ni gael rhai cawodydd yn ystod y dathliadau, ni amharwyd ar yr hwyl.

Gan y bydd yr adeiladu yn dechrau rhag blaen, penderfynwyd fod llawer o'r planhigion sydd ar werth yn yr ardd farchnad i'w gwerthu am yn agos i hanner pris er mwyn hwyluso'r gwaith adeiladu.

Mae o ddiddordeb, efallai, fod yn awr tua 250 o bobl Waunfawr yn gyfranddalwyr yn y Cwmni, ffaith sy'n rhwym o bod yn bwysig i argyhoeddi'r awdurdodau cyllidol fod gan Antur Waunfawr gefnogaeth leol ryfeddol o gryf.

SIOP GREFFTAU
CAFFI
CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. – 3 p.m. o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig

O Siambar Selwyn i Chicago

Mae'n rhyfedd fel rydan ni'n hoffi edrych yn ôl dros ysgwydd y blynyddoedd. Be' ddigwyddodd ddeg, ugain, deugain, a chan mlynedd yn ôl? Cafwyd prawf o hyn eleni pan atgoffwyd ni droeon am yr hyn a ddigwyddodd yn 1953. Do, fe goncrwyd Efrest. Enillodd Lester Piggot y Derby. Cafodd Stanley Matthews ei fedal yn Wembley, ac fe goronwyd brenhines, sef Dilys Cadwaladr pan wisgodd hi'r goron genedlaethol ym mhrifwyl y Rhyl.

Roedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i fod i gael ei chynnal ym Mrwsel eleni yn ôl rhai — ond diolch i synnwyr cyffredin ni wireddwyd y freuddwyd.

Ond can mlynedd yn ôl fe gynhaliwyd eisteddfod hynod yn Chicago, yng nghesail Fair Fawr y Byd. Bu'r eisteddfod yn un mor llwyddiannus fel y bu i Caradog awgrymu y dylai'r Cymry ystyried cynnal eisteddfod ple bynnag y cynhelid Ffair Fawr y Byd yn y dyfodol. Ai dyna pam y cafwyd ffair ar faes prifwyl yr Urdd eleni?

P'run bynnag! Cynhaliwyd Ffair Fawr y Byd am chwe mis yn 1893, ac am bedwar niwrnod, sef o'r 5ed hyd yr 8fed o Fedi cynhaliwyd Eisteddfod Gyd-Genedlaethol yn gysylltiedig â'r ffair.

Swyddogion y ffair a wasanaethai fel stiwardiaid a dywedir na chafodd yr un o'r arweinyddion anhawster o gwbwl i gael trefn a distawrwydd.

Trefnwyd i beidio agor gweithgareddau'r eisteddfod cyn un o'r gloch, er mwyn rhoi cyfle i'r ymwelwyr gael mynd o amgylch stondinau'r ffair yn y boreau.

Roedd safle'r ffair saith milltir o ganol dinas Chicago ac fe orchuddiai dros naw cant o aceri. Dywedid ar y pryd, pe cymerid tri munud o amser wrth bob stondin, yna fe gymerai tua deuddeng mlynedd i chi fynd o amgylch yr holl ffair.

Beth am yr eisteddfod? Dywedir bod tua chwe mil o Gymry wedi cyfarfod yno. Roedd amryw wedi dod drosodd o Gymru a channoedd eraill o Gymry alltud America a Chanada wedi cydgyfarfod yno. Yn sicr dyma'r cyfarfod mwya' 'dagreuol-hapus' o Gymry ar Wasgar a fu erioed.

Prif atyniad yr eisteddfod arbennig hon, fel heddiw, oedd seremoni cadeirio'r bardd. Dyma'r tro cyntaf erioed i gadeirio *'yn ôl braint a defod gorsedd beirdd Ynys Prydain'* gymryd lle tu allan i Brydain.

Cynigiwyd y gadair, sef cadair dderw werthfawr, ynghyd â bathodyn aur a £100 o wobr, am awdl heb fod dros *2,000* ac heb fod dan *1,500* o linellau ar y testun 'Iesu o Nazareth' (tua 200 llinell neu lai yw hyd ein hawdlau a'n pryddestau cenedlaethol y dyddiau hyn). Y wobr? Wel ffortiwn, a deud y lleiaf, oedd £100 yn 1893. Roedd pump wedi cynnig ac fe gytunai'r tri beirniad, sef Hwfa Môn, Dafydd Morgannwg a G. H. Humphrey, mai awdl yn dwyn y ffugenw 'Lazarus' oedd yr orau. Dyfed oedd y 'Lazarus' hwnnw a dywedir iddo gael ei gadeirio gyda mwy o rwysg nag a welid yn yr Eisteddfod Genedlaethol y dyddiau hynny. Yn sicr fe haeddai hynny am awdl bron i ddwy fil o linellau. Mi fydda i yn cael trafferth i gyfansoddi englyn yn aml.

Testun y bryddest oedd 'Columbus' a gŵr o'r enw Mr Leader o Lundain oedd yn fuddugol. Yn ôl yr hanes a ddarllenais mewn hen rifyn o'r *Genhinen* fe gafodd £30 o wobr a thlws o eryr arian. Ys gwn i pwy oedd y Mr Leader hwn?

Am Arwrgerdd ar y testun 'George Washington' cafodd Watcyn Wyn wobr o £20 a choron arian. Diddorol iawn oedd y wobr a ddaeth i ran un o'r enw Charles Ashton. Ei dasg oedd ysgrifennu *'Llawlyfr bywgraffiadol a beirniadol o'r Beirdd Cymreig a'u Barddoniaeth'*. Ei wobr? £20 a *darn o dir gwerth deugain punt* i godi tŷ arno. Ys gwn i a fanteisiodd y Charles Ashton hwn ar y cyfle i godi tŷ yn America?

Dywedir mai Hwfa Môn oedd prif arwr yr eisteddfod hynod hon, a dywedir iddo sefydlu gorsedd yn yr America.

Beth am yr ochr gerddorol? Saith côr yn cystadlu yng nghystadleuaeth y corau meibion, a dau ohonynt wedi teithio yn unswydd o Gymru i'r eisteddfod, sef Côr Meibion y Rhondda, a Chôr Meibion y Penrhyn, a dywedir na welwyd erioed y fath frwdfrydedd pan ymddangosodd y corau o Gymru ar y llwyfan. Yr oeddynt wedi teithio yn agos i 4,000 o filltiroedd, ac roedd perfformiad y corau hyn yn tynnu dagrau i lygaid y gynulleidfa.

Enillwyd y wobr, sef $1,000 (tua £200 yr adeg honno) gan Cor y Rhondda, ac aeth yr ail wobr o £100 i Cor y Penrhyn. (Diddorol sylwi fod Côr Meibion y Penrhyn yn bwriadu ymweld â Chicago eleni i ddathlu'r canmlwyddiant.)

Yr atyniad mawr oedd y gystadleuaeth i gorau cymysg am wobr o £1,000 a thlws aur i'r arweinydd buddugol. Rhaid oedd i bob côr gael rhwng 200 a 250 o leisiau, ac roedd tri darn gosodedig — (a) 'Worthy is the Lamb' (Handel), (b) 'Blessed are the men who fear Him' (Mendelssohn) a (c) 'Now the impetuous torrents rise' (Jenkins). Ymgeisiodd pedwar o gorau, sef Côr Cymmrodorion Scranton, Côr Tabernacl Dyffryn yr Halen, Undeb Gorawl Scranton, ac Undeb Gorawl y Western Reserve Ohio. Y côr buddugol oedd Undeb Gorawl Scranton, gyda côr y Mormoniaid o Ddyffryn yr Halen yn ail. Yng nghystadleuaeth y corau merched fe ddyfarnwyd côr o Gaerdydd yn orau a chawsant wobr o £60.

Cyrhaeddodd penllanw y brwdfrydedd ar nos Wener yr Ŵyl, pan arweiniodd Caradog y gynulleidfa i ganu'r Haleliwia Chorus. Golgyfa fythgofiadwy yn ôl yr adroddiad. Dros 1,000 o leisiau diwylliedig, nodau'r organ fawr yn atsain drwy'r neuadd, a thros 6,000 mewn hwyl ynghanol môr o gerddoriaeth ar derfyn Eisteddfod Ffair Fawr y Byd yn Chicago.

Digon o waith y cynhelir eisteddfod yn Chicago eleni, ac yn sicr fydd Al Capone ddim yno i ddathlu Gŵyl Fawr 1893. Ys gwn i a fydd Côr Meibion y Penrhyn yn canu 'Pwy fydd yma 'mhen canmlynedd?' yno? Digon o waith.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Croesawyd y newyddion bod maes chwarae i'r plant lleiaf i'w sefydlu yng Nghaeathro yn ystod y misoedd nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd Eurig Wyn, Waunfawr, ei fod yn falch fod y datblygiad yn mynd ymlaen. Dywedodd, 'Rwy'n siŵr y bydd rhieni Caeathro yn falch iawn i glywed y newyddion. Mae angen mawr am y lle chwarae hwn ar blant lleiaf y pentref ac rwy'n gobeithio y bydd yn dderbyniol iddynt hwy a'r trigolion cyfagos.'

Croeso i Iona Jones sydd wedi symud i rhif 4 Erw Wen. Mae hi'n gweithio yn Adran Hyfforddi Cyngor Sir Gwynedd yng Nghaernarfon.

Gwasanethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i bregethu dros fisoedd yr haf — Gorffennaf 4: Dafydd Iwan am 2; 11: Parchg W. R. Williams am 10; 18: Parchg S. O. Hughes am 2; 25: Parchg W. R. Williams am 10.
Awst — trefniadau personol.
Medi — 5: Mr John Roberts am 2; 12: R. John Hughes am 2; 19: Parchg W. R. Williams am 2; 26: Parchg H. Gwynfa Roberts am 2.

Pwyllgor y Cae Chwarae. Dyma enillwyr y dynfa am fis Mehefin — £40: Clive James Hafan (71); £25: A. R. Simpson, 3 Glangwna (41); £15: Hefin Huws, Lleifior (19).

Gobeithir trefnu gêm griced yn erbyn y Bontnewydd ar ddechrau gwyliau'r ysgolion. Cynhelir cyfarfod arbennig o'r pwyllgor am 8 o'r gloch ar nos lau, 5 Gorffennaf.

Ymadael: Pob dymuniad da i Eric a Beryl Roberts a'r teulu yn eu cartref newydd ym Mhenrhosgarnedd wedi i Eric gael ei ordeinio yn yr Eglwys yng Nghymru. Bu y ddau ohonynt yn gefnogol i bob achos yng Nghaeathro — Cymdeithas y Cae Chwarae, y Sioe Cynnyrch Tŷ a Gardd, Clwb y Merched a Chlwb y Pentan, y Capel ac unrhyw achos arall a fu. Yn ogystal bu Beryl yn ohebydd yr Eco ers y dechrau. Peidiwch â bod yn estroniaid wedi i chwi symud i'r dwyrain pell!!

— Golygyddion.

Trefniadau Blodau Sych a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones
RACCA
PENISARWAUN

★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
★ Blodau ar gyfer angladdau
★ Stoc o flodau ffres

Galwch neu ffoniwch
870605
am fanylion

Y STORFA LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: C'fon 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

'Un funud fach . . .'

FFORDD OSGOI

Rhyw ugain munud o daith yw hi mewn car o Fangor i Lanberis, ond y noson o'r blaen mi gymrodd y daith bron i awr gyfan. Rowndabowt y Faenol oedd ar fai. Roedd hwnnw wedi cael ei ail gynllunio a thagfa draffig ddifrifol wedi ei chreu. Rhan o gynllun ffordd osgoi'r Felinheli yw'r rowndabowt newydd wrth gwrs. Bu cynllunio manwl ac mae'r gwaith o adeiladu'r ffordd yn hir a chostus.

Fe ddywedodd yr Iesu, 'Myfi yw'r ffordd'. Sôn yr oedd ar y pryd amdano'i hun fel y ffordd i'r nefoedd. Trwyddo Ef mae ffordd glir at Dduw, ffordd sy'n arwain yn union i'r nefoedd. Ond mae'r ffordd hon ar yr un pryd yn ffordd osgoi, fel y gwelodd Pantycelyn:

Ffordd newydd wnaed gan Iesu Grist
I basio heibio'i uffern drist,
Wedi ei phalmantu ganddo Ef,
O ganol byd i ganol nef.

Mae'r ffordd osgoi hon wedi ei chynllunio'n ofalus: roedd Duw wedi bwriadu anfon ei Fab Iesu Grist i fod yn Waredwr. Gwnaed cynllun perffaith o'r dechrau, a rhoddwyd addewid gwerthfawr, a bu disgwyl mawr am ganrifoedd am y Ffordd.

Mae'r ffordd osgoi hon wedi costio'n ddrud: bu raid i'r Iesu Mawr farw dros eraill ar groes Calfaria. Dyna'r pris roedd raid ei dalu. Wrth farw ar y groes roedd Ef yn cymryd ei gosbi yn lle pobl eraill, fel eu bod nhw yn cael osgoi wynebu'r gosb, osgoi'r golledigaeth, osgoi uffern drist.

Mae'r ffordd osgoi hon wedi ei chwblhau mewn un prynhawn! Does dim eisiau ail osod y ffordd hon, does dim modd ei gwella, mae'n addas ar gyfer traffig yr oesoedd, ac fe'i gorffenwyd mewn ychydig oriau wrth i'r Iesu ddioddef ar y groes.

Bydd ffordd osgoi'r Felinheli yn hwylus iawn, fel y ffyrdd hynny sy'n mynd heibio i Lanberis a Chwm-y-glo yn y fro hon. Nid ffordd hwylus yw'r ffordd osgoi a geir trwy Iesu Grist, ond ffordd angenrheidiol, na ellir gwneud hebddi os am gyrraedd pen y daith yn ddiogel.

JOHN PRITCHARD

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr y Clwb 300 am fis Mai — £40: Mrs Rhian Ellis, Tyn Llidiart; £25: Mrs Glenys Williams, Tyn Weirglodd; £10: Mr P. A. Misson, Warwick.

Diolch: Carwn ddiolch i bawb o'r ardal am i mi gael fy nychwelyd yn ddiwrthwynebiad i weithredu ar eich rhan ar Gyngor Sir Gwynedd.

Rwy'n addo gwneud fy ngorau dros yr ardal yn ystod y deuddeng mis nesaf. Os caf fy ethol ar y cynghorau aml-bwrpas newydd a ddaw i rym yn 1994/5 rwy'n bwriadu parhau i'ch gwasanaethu.

Carwn ddiolch hefyd i'm haelod seneddol, Dafydd Wigley, a changhennau Plaid Cymru am eu cefnogaeth gyson.

Yn gywir iawn — Eurig Wyn.

Y Gymdeithas Lenyddol: Nos Fawrth, Mehefin 8, ymwelodd aelodau'r Gymdeithas ag Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy a chafwyd sgwrs ar sefydlu'r amgueddfa a'r cynnwys gan Mr Emrys Williams. Yn dilyn aeth pawb i westy'r Ranch gerllaw i fwynhau pryd blasus, ac yno bu trafodaeth ar ddyfodol y Gymdeithas gan nad oes neb hyd yn hyn yn barog i ymgymeryd â bod yn drefnydd y tymor nesaf. Deallwyd gyda balchder fod Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt, yn barog i ymgymeryd â gwaith y trysorydd fel olynnydd i Mr Stanley Williams sydd yn ymddeol gyda'r trefnydd presennol, Mr Rol Williams. Yn naturiol mae'r ansicrwydd yma ynglŷn â dyfodol y Gymdeithas lewyrchus hon, gyda dros drugain o aelodau, yn creu peth pryder i'r aelodau sydd wedi cefnogi'n frws yr holl weithgareddau yn ystod y naw mlynedd diwethaf. Etholwyd tri aelod newydd ar y pwyllgor, sef Miss Marian Wyn Jones, Dôl Erddi, Mr R. Gwynn Davies, Bryn Eithin, a Mr John Roberts, Tŷ Hen, a thalwyd y diolchiadau am drefnu'r noson ddifyr gan Mr R. Gwynn Davies.

Llongyfarchiadau

Genedigaeth: Llongyfarchwn Mrs Helen Jones, Tref Eilian, ar fod yn nain unwaith eto. Ganwyd mab bychan, Tomos, i'w merch Einir a'i phriod Tony.

Llongyfarchwn Tina Parry, Bryn Golau, ar enedigeth mab bychan, Jason Lee, ac i Gwilym ac Angela ar ddod yn daid a nain; a llongyfarchiadau i Tina ar gyrraedd ei 21 mlwydd oed yn ddiweddar.

Eisteddfodol: Cafodd Mr Gwynn Davies, Bryn Eithin, ddwy fuddugoliaeth yn Eisteddfod Môn yng nghystadleuaeth cyfansoddi englynion.

Addysg: Llongyfarchiadau i Karen Roberts, Sŵn-y-gwynt; Siân Llwyd, Dol-y-coed, ac Euros Wyn, Y Frenni — mae'r tri wedi llwyddo gydag anrhydedd yn eu arholiadau gradd.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i James Barnes, Haul a Gwynt, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

Ddiwedd mis Mehefin bu Mrs Williams, Dwyfor, yn dathlu ei phen-blwydd yn 95 mlwydd oed. Ac yn ystod y mis bu Miss Jennie Jones, Bryn Tirion, yn dathlu cyrraedd ei 90 mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr ichi a phob dymuniad da.

Diolch: Dymuna Jennie Jones, Bryn Tirion, ddiolch o galon i'w theulu a'i chyfeillion ac i bawb yn Cartref y Foelas am y caredigrwydd, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn yn 90 oed. Diolch yn fawr.

Adref o'r ysbyty: Croesawn Mrs A. Thomas, Gilfach, Stad Tŷ Hen; Kirsty Jones, Cynefin; Mr Bill Owen, Noddfa, Stad Tref Eilian, a Mr John Elwyn Roberts, Glaslyn, Bro Waun, adref o'r ysbyty. Gobeithiwn eich bod yn cryfhau ac yn gwella.

Diolch: Dymuna John Elwyn Roberts ddiolch i bawb a fu mor garedig wrtho tra roedd yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dod adref.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion at Mrs Southworth a Mr David Morris, Bryn Golau, sydd yn yr ysbyty.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â theulu a chyfeillion y diweddar Mr Jackie Parry, Bryn Awelon, a fu farw mor frawychus o sydyn.

Anfonwn ein cydymdeimlad i Mrs Lyons, Ael-y-bryn, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod; ac at Mrs Peggy Jones, Fferm Glyn Afon, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, y diweddar Mr B. Lyons.

Cydymdeimlwn â Mrs G. Jones, Tref Eilian, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, a oedd yn aros gyda hi yn Nhref Eilian.

Dathlu Priodas Aur: Llongyfarchiadau i Mrs Nancy Myra Carter a'i phriod Don ar yr achlysur arbennig hwn. Mae Nancy yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs William Hughes, Dolafon. Er ei bod yn byw yn Southampton ers blynyddoedd maith mae'n dal yn Gymraes rhonc ac yn ddarllenydd cyson o'r Eco.

Casgliad Cymorth Cristnogol: Dymuna'r Rheithor, y Parchg Barry Thomas, ddiolch i'r rhai gyfrannodd ac i'r rhai fu'n casglu o amgylch y pentref am gyfrannu mor hael tuag at yr achos teilwng hwn. Anfonwyd £275.22 i'r gronfa o'r Waunfawr.

Yr Urdd: Er na chafodd y parti cân actol lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe, fe berfformiodd y plant yn arbennig o dda yn y rhagbrawf, ac fe fwynhaodd pob un ohonynt y profiad yn fawr iawn.

Daeth llwyddiant i rai o'r aelodau yng nghystadlaethau mabolgampau'r Urdd yng nghylch Arfon ac yn y cystadlaethau sir ym Mhorthmadog — daeth Lowri Glyn i'r brig yn y gystadleuaeth neidio uchel i enethod o dan 12 oed. Llongyfarchiadau gwresog iti Lowri ar dy gamp.

Bydd pwyllgor yr Urdd yn cyfarfod cyn diwedd tymor haf yr ysgol. Os oes gan unrhyw un ohonoch syniadau da at y tymor nesaf ewch i weld Anti Joy Glyn neu Anti Heulwen Jones.

Mae angen mawr am gynorthwywyr gyda'r Urdd yn y pentref. Os oes gennych awydd dod i helpu cysylltwch â Joy neu Heulwen. Diolch yn fawr.

CYMDEITHAS CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Enillwyr y Clwb 100

mis Mai:
C. a D. Rochelle, Bethel;
J. H. Gibbins, Pontrug;
M. Williams, Llanrug.

mis Mehefin:
D. A. Jones, Llanrug;
I. Williams, Llanrug;
E. Jones, Penisarwaun.

CARPEDI GLÂN
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 650291
hefyd ail-osod carpedi

GORSAF BETROL
BERAN
DEINIOLEN.
Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion
Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM
FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)
2 TAN Y BRYN, BETHEL
NHBC
★ Gwydro Dwbl a Sengl
★ Gwaith Domestig a Chontract
★ Gwarant 10 mlynedd
★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim
CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!
FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Urdd — Adran Bentref: Nos lau, Mai 20fed, aeth nifer o'r plant i gystadlu ym Mabolgampau Cylch yr Urdd ar gaeau Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon. Diolchir i bawb am gefnogi a chludo'r plant yno. Llongyfarchir Erin Eifion ar ddod yn ail yn y naid uchel i ferched dan 10 oed. Nos lau, Mehefin 17, bu'n llwyddiannus ym Mabolgampau'r Sir ym Mhorthmadog gan ddod yn ail yn yr un gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i ti Erin.



Erin Eifion gyda'i thystysgrif yr Urdd.

Eglwys Santes Helen

Dydd Gweddi a Rhodd: Cynhelir ar y Sul, Gorffennaf 4ydd, am 10.30 a.m. gyda Cymun Bendigaid Teuluol gyda'r Parchg Tegid Roberts. Am 4.30 p.m. bydd Gosber a Phregeth gan y Parchg Idris Thomas, Rheithor Llanaelhaearn a Chlynnog.

Yr Ysgol Sul: Llongyfarchiadau i aelodau Ysgol Sul ar ennill y gwpan am y cywaith gorau yng Nghymanfa Ganu y cylch yn ddiweddar. Seiliwyd y 'collage' ar thema 'gweddi'. Roedd yn hynod o liwgar gyda nifer o falwnau i gynrychioli'r agweddau gwahanol o Weddi'r Arglwydd. Enillwyd y wobr ar y cyd ag Eglwys Glanadda. Y mae croeso i unrhyw blentyn ymuno â gweithgareddau cyffrous yr Ysgol Suyl yn Neuadd yr Eglwys.

Llongyferchir Huw Tegid, ar ennill cwpan ar y gystadleuaeth i bobl ifainc o dan 14 oed.

Huw Tegid a'i gwpan.

Ysgol Sul Bosra: Y mae'r bws i Blackpool yn llawn! Bydd yn cychwyn o 'King' am 7.30 a.m. Gobeithio'n wir y bydd yr haul yn gwenu.

Gwellhad: Derbyniodd nifer o'r pentref driniaethau yn yr ysbyty ac anfonir cofion annwyl at Carol Jones, Urien Deiniol, Elen Davies ac Elinor Jones. Gobeithio dy fod tithau yn gwella wedi dy anffawd Aled.

Dymunir adferiad iechyd i bawb arall sy'n sâl yn y pentref.

Diolch: Dymuna Mark Porter ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21ain oed yn ddiweddar.

Wedi ei thriniaeth fawr yn Ysbyty Gwynedd dymuna Mrs Eluned Porter ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau. Diolchir yn arbennig i Pat am ei gofal tyner ac i Arnold a Len a Carol.

Dymuna Mrs Beti Roberts, 10 Bryntirion a Mrs Elinor Jones, Heatherbank, ddiolch i'w teuluoedd, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd yn ystod eu gwaeledd.

Llwyddiant: Y mae canlyniadau rhai myfyrwyr wedi dod a mawr yw ein llawenydd o longyfarch Gwenllian Parry, Tawelfa, ar ennill gradd Anrhydedd ym Mhrifysgol Bangor. Da iawn chdi Gwenllian.

Genedigaeth: Croesawn Ceri Fôn i 1 Tai'r Bwthyn, sef merch fach i Paula a Gareth Humphreys, chwaer fach i Ffion Mai.

Pwyllgor Neuadd: Y mae llyfrau raffl ar werth gan aelodau'r pwyllgor — 10c yr un neu 50c y llyfr. Fe'i tynnir yn ystod wythnos y Carnifal. Diolchir am eich cefnogaeth.

WYTHNOS CARNIFAL PENISARWAUN

GORFFENNAF 4—10fed

Nos Sul, Gorffennaf 4:
Cymanfa Ganu am 7 p.m. yn Eglwys Santes Helen. Arweinydd: Arwel Jones.

Nos Fawrth, Gorffennaf 6:
Noson i blant yr Ysgol.
Pêl-dreod a rownderi am 6.30 o'r gloch.

Nos lau, Gorffennaf 8:
Noson Goffi
Yr elw tuag at Uned Haematoleg a Chymorth Canser Gwynedd am 7.30 o'r gloch.

Nos Wener, Gorffennaf 9:
Disgo.
Oed Meithrin 6-7 o'r gloch; eraill 7-8 o'r gloch.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 10:
CARNIFAL
am 2 o'r gloch o'r Cae Chwarae i Gae'r Ysgol.

Aelodau Ysgol Sul Eglwys y Santes Helen.

Cynhaliwyd yr Ŵyl eleni yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun, ar ddydd Sul, 23ain o Fai, gyda Gŵyl y Plant am 2 o'r gloch a Chymanfa Ganu'r oedolion am 6.30 yr hwyr.

Cymerwyd y rhan agoriadol yn y prynhawn gan blant a phobl ifanc Eglwys y Santes Helen ac arweiniwyd yr Ŵyl gan y Parchg Tegid Roberts, gyda Mr Cyril Williams yn arwain y canu. Yr Arholwraig yn yr adran llafar oedd Mrs Heulwen Parry o Lanrug a chyflwynodd Deon Gwlad Arfon, Canon R. L. Owen, dystysgrifau i bedwar ugain o blant o Eglwysi Llandinorwig, Llanberis, Llanrug, Penisarwaun, Llanfairisgaer a Glanadda, Bangor, am eu gwaith yn yr adran llafar.

Yr Arholwr yn yr adran ysgrifenedig oedd y Parchg G. C. Owen, ac enillwyr y tariannau am y gwaith gorau yn oedran Bl. 7 ac 8 Ysgolion Uwchradd oedd Claire Evans o Lanrug a Sharon Griffiths o Lanberis, gyda Huw Tegid Roberts o Eglwys y Santes Helen yn ennill Cwpan Coffa Alun Jones, Offeiriad, am y gwaith gorau yn oedran Bl. 9.

Daeth eglwysi Dewi Sant, Glanadda, a'r Santes Helen, Penisarwaun, yn gyfartal gyntaf am eu hymdrech yn yr adran Celf a Chrefft, ac roedd canmoliaeth uchel i'r gwaith gan yr Arholwr, Mr Kelvin Pleming, gyda'r ddwy Eglwys yn dal Cwpan Coffa Lowri Pritchard am chwe mis yr un.

Yng Ngŵyl yr oedolion Mr James Griffiths oedd yn arwain y canu ac fe gafwyd eitemau gan Gôr Meibion Dinas Bangor.

Hyfrydwch oedd gweld yr Eglwys yn orlawn i'r ddau gyfarfod, gyda phobl yn sefyll yn y cefn er bod cadeiriau ychwanegol wedi cael eu cludo i mewn i'r Eglwys.

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

Geni • Bedyddio • Ifoed • Priodas • Dyweddio • Adnoddau • Llwyddiant • Ymddeoliad • Diarhebion • Graddio • Anrhydedd • Dyrchafiad

Achlysur arbennig? Anrheg unigryw? Beth am un o sampleri

PWYTHAU CAIN

Cynllunir pob sampler yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

Hefyd gwniadwaith o bob math gwneud dillad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darnau o Farddoniaeth

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

CHWILOTA PAM LLANBABO?

Yn ei draethawd ar 'Hanes y Waen Gynfi' mae John Roberts yn cynnig eglurhad ar sut y daeth pentref Ebenezer — Deiniolen yn ddiweddarach — i gael ei alw yn 'Llanbabo'. Dywed mai teulu'r Caeau Uchaf oedd biau'r ffriddoedd ble'r adeiladwyd Capel Ebenezer, ac i'r un teulu fod yn gyfrifol am adeiladu dau neu di o dai gydochrog â'r capel a'r Tŷ Capel. Mae'n ymddangos i'r tai hyn gael eu hadeiladu tua'r cyfnod 1832-1836. Gyferbyn â'r capel, ar ochr arall y ffordd, dywedir i Cornelius Jones adeiadu *'rhyw wyth o dai lled fychain'*. Dyma mae'n debyg, gychwyn pentref Ebenezer. Ond yn ôl John Roberts, adeiladwyd *'tŷ bychan, led israddol yr olwg arno, ar ochr ogleddol y ffordd, a'i dalcen iddi'* gan rhyw ŵr o'r enw Hugh. Oherwydd fod pob tŷ arall yn wynebu'r ffordd, dechreuwyd gwawdio perchennog y tŷ 'talcen', a galw ei dŷ yn 'Eglwys Llanbabo', ac i'r enw aros byth er hynny.

Nid yw Dewi Peris yn ei draethawd buddugol ar yr un testun yn cynnig unrhyw eglurhad ar 'Llanbabo', na hyd yn oed yn cyfeirio at yr enw. Mae'n cytuno i bentref Ebenezer gael ei adeiladu tua'r cyfnod 1830-1838. Mae John Hughes, Fronheulog, awdur y trydydd traethawd yn yr un gystadleuaeth gan 'Gylchwyl Lenyddol Deiniolen', yn cytuno â'r dyddiadau, ond unwaith eto, does dim sôn ganddo am 'Llanbabo'. Rhai eraill a enwir gan awduron y traethodau fel adeiladwyr tai bychain yn ardal Capel Ebenezer oedd Robert Jones, Rallt; John Roberts, Blaen-y-cae; Morris Jones; a David Griffith, Tan-y-graig (brodor o Lanfaglan mae'n debyg). Yr olaf a enwir a ddechreuodd adeiladu tua deugain o dai *'heb yn gyntaf eistedd i lawr a bwrw y draul yn ddigonol a oedd ganddo a'i gorffenai'*.

Yr hyn sy'n ddiddorol, wrth gwrs, yw fod pentref newydd sbon wedi ei adeiladu o amgylch Capel Ebenezer yn y cyfnod hwn, ond nad oedd gan neb enw swyddogol iddo. Fel a ddigwyddai mewn amryw o bentrefi gweithfaol eraill ledled Cymru, y duedd oedd i'r pentref 'fenthyca' enw Beiblaidd y capel, a daeth enwau fel Nasareth a Bethesda yn enwau Cymraeg a Chymreig. Ond hyd yn oed yn y cyfnod cynnar hwn yn hanes Ebenezer, doedd dim pendantrwydd ynglŷn â pha enw i'w fabwysiadu. O astudio Cofrestrau Plwyf Llanddeiniolen, gwelir fod dau neu dri enw gwahanol yn cael eu defnyddio ar yr un pryd. Ebenezer yw un ohonynt wrth gwrs, ond gwelir hefyd 'Pentre Eban', 'Pentre Pabo' a 'Llanbabo'. Mae'r tri yn ymddangos gyntaf yn 1836, 1837 a 1838. Yn wir, mae 'Llanbabo' yn eithaf cyffredin ar ôl 1838. Mae'n ddiddorol nodi hefyd fod Cornelius Jones, un o'r adeiladwyr cynnar, yn un o ymddiriedolwyr cyntaf Capel Cefn y Waen. Yno, cyfeirir ato fel Cornelius Jones, Llanbabo. (Brodor o Bentir ydoedd, ac felly, dyna daflu dŵr oer ar y chwedl mai gŵr o Lanbabo, Môn, a ddechreuodd adeiladu tai gyntaf yn y rhan hon.)

Mae'n amlwg i'r enw 'fynd allan o ffasiwn' fel 'tae, a bodlonwyd ar gadw'r enw 'parchus' Ebenezer nes newid hwnnw i Ddeiniolen yn ddiweddarach. Ond mae 'Llanbabo' yn parhau ar lafar, yn groes i'r hyn a feddyliai John Roberts yn 1868: *'yr ydym yn tybied fod yr enw gwag a disail wedi gwisgo ymaith yn hollol erbyn hyn, oddieithr gan ambell ynfytyn'*.

* * * *

Teulu'r Glasgoed

Cafwyd ymateb i'r cais am wybodaeth am deulu Glasgoed gan Iwan Roberts. Mae yn nodi bod Glasgoed, a'r stad syleddol o dir a arferai berthyn iddo, yn eiddo i deulu Coed Helen hyd nes iddi gael ei gwerthu rhywbryd yn ystod hanner cyntaf y ganrif hon. Mae tystiolaeth fod y tŷ presennol wedi ei adeiladu yn 1657 gan Owen Wynne, perchennog stad Coed Helen ar y pryd. Am y rhan fwyaf o'r cyfnod ers hynny gosodwyd Y Glasgoed i denantiaid, ac mae'n debyg felly nad un teulu yn unig y gellid eu hystyried fel 'Teulu Glasgoed'.

Mae diddordeb Iwan yn nheulu Richard Griffith ddaeth yn denant yno yn 1785. Mae'r ddogfen a arwyddwyd ganddo ar gychwyn cyfnod ei denantiaeth i'w gweld hyd heddiw yn yr Archifdy yng Nghaernarfon. Bu fyw yng Nglasgoed weddill ei oes, a phan fu farw yn 1810, fe'i dilynwyd fel tenant gan Elin ei wraig. Pan fu hi farw yn 1834 ni ddaeth y denantiaeth i'r un o'u 13 plentyn a daeth cysylltiad y teulu â'r lle i ben. Mae'n amlwg iddynt barhau i gael eu hadnabod fel teulu'r Glasgoed am beth amser wedi hynny fodd bynnag. Ceir cofnod, er enghraifft, o Morris, un o feibion Richard Griffith a hen hen hen daid Iwan, yn cael ei adnabod fel 'Morris Glasgoed' yng nghofrestrau plwyf Llanrug yn 1853, ugain mlynedd ar ôl i gysylltiad ffurfiol y teulu â'r Glasgoed ddod i ben.

Mae Iwan bellach wedi darganfod cryn dipyn o wybodaeth am y teulu a buasai'n falch o glywed gan unrhyw un arall sydd â chyswllt posibl a hwynt. Un ffaith ddiddorol a ddaeth i'r amlwg yw'r defnydd o'r enw 'Erasmus' yn y teulu. Dyma oedd enw un o feibion Richard Griffith, ac mae'r enw yn ymddangos mewn sawl cenhedlaeth gynharach. A yw'r enw wedi parhau hyd heddiw? Roedd yr Erasmus uchod yn byw mewn lle o'r enw 'Camby'. Cyfeirir ato yng nghofnodion plwyf Llanddeiniolen weithiau fel 'Campy' neu 'Cambil'. Oes rhywun yn gwybod ble roedd neu ble mae hwn?

* * * *

Terfynau Plwyf Llanddeiniolen

Cefais gopi o fap yn dangos terfynau plwyfi Llandegai a Llanddeiniolen. Nid yw'n ddigon eglur i'w ail-ddangos yma, ond nodir rhai nodweddion ar y terfyn. Islaw Llyn Marchlyn bach mae'r geiriad, *'Stone with Llanddeiniolen and Llandegai cut in it'*. Yn ddiweddar derbyniais luniau o'r garreg hon gan ddarllenwraig o Ddeiniolen. Fel y gwelwch, nid yw'r ysgrifen yn eglur iawn, ac nid yw'r sillafiad yn gywir 'chwaith! Gyda diolch am drafferthu i gerdded i'r fan a thynnu'r lluniau.

Un cais byr i orffen. Oes rhywun yn medru lleoli Bryngwyn, tyddyn rhywle ar y gweundir rhwng Deiniolen a Llandegai. Oes tŷ yno heddiw ynteu adfail? Wyddoch chi rywbeth am Richard Williams a'i deulu, oedd yn byw yno tua canol y ganrif ddiwethaf?

Anfonwch air i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Ffôn: 0286 673515).

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Trist iawn yw adrodd fod yr ysgol wedi derbyn sylw oddi wrth fandaliaid yn ddiweddar. Ymddengys fod criw ohonynt wedi ymweld â chefn yr adeilad gyda'r nos neu fwrw'r Sul yn ddiweddar gyda'r bwriad o achosi difrod. O ganlyniad i'w gweithgareddau nid yw'n bosib i ni adael dau ddrws ar agor tra mae'r plant yn gweitio, a gyda chymaint o wydrau ym mhob dosbarth mae hyn yn effeithio yn uniongyrchol ar y plant.

Ar nodyn hapusach, derbyniodd yr ysgol y piano drydan newydd yn ddiweddar. Ffrwydd gweithgareddau casglu arian y Cyfeillion yw'r piano, ac eisoes fe'i rhoddwyd ar waith. Diolch yn fawr i'r Cyfeillion am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd unwaith yn rhagor.

Rhai o Gyfeillion yr Ysgol gyda'r piano Yamaha.

Cymerodd y plant hynaf ran yn y Cynllun Chwaraeon yn Ysgol Brynrefail yn ystod ail hanner y tymor. Cyfle yw'r cynllun i'r plant brofi nifer o wahanol weithgareddau dan arolygaeth hyfforddwyr arbennig. Mawr yw ein dyled i Mr Grisedale a'i staff am estyn y gwahoddiad i ni.

Yn ddiweddar hefyd cafodd y plant hynaf gyfle i sefyll eu prawf beiciau. Pleser yw cyhoedi fod pob un wedi llwyddo.

Plant yr Ysgol gyda'u tystysgrifau prawf beiciau.

Fel rhan o'u thema dosbarth am 'Y Môr' aeth uned y babanod i'r Sŵ Môr ym Mrynsiencyn, ac yna ymlaen i draeth Benllech, lle cawsant bicnic. Yn ffodus bu'r tywydd yn garedig ar y diwrnod, a dychwelodd pawb ar ddiwedd y dydd wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Cwmni TARIAN Cyf.

Yswiriant Car neu
Yswriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN
6 Stryd Bangor, Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Diolchiadau:

Dymuna teulu y diweddar John David Jones, 11 Tai Marian, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gydymdeimlad a'r caredigrwydd a estynwyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolchir yn arbennig am y rhoddion ariannol o £200 a anfonwyd i Feddygfa Deiniolen.

Dymuna Mrs E. Morris, Rhiwen, ddiolch o galon i'w theulu, ymhell ac agos, cymdogion a ffrindiau am y cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

Dymuna Mr Len Williams, 26 Hafod Oleu, ddiolch i bawb a fu mor garedig wrtho tra y bu yn yr ysbyty ym Manceinion ac wedi iddo ddod adref.

Dymuna Clarice Robers a'i brawd, Cyril Maddoxm, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a'r caredigrwydd a estynwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad annwyl, sef Mr Sam Maddox o'r Bull Inn gynt. Diolchir am yr arian a'r cardiau a dderbyniasant. Diolch arbennig i Mrs M. W. Thomas a'r staff ym Mhlas Pengwaith am eu gofal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Jane Williams (Anti Jên) ddiolch o galon i staff Plas Pengwaith am eu gofal tyner a charedig iawn am bedair ar ddeg o flynyddoedd. Diolchir yn arbennig iawn i Mr a Mrs Donald Jones am eu ffyddlondeb iddi ar hyd y blynyddoedd gan i Donald ymweld a'r cartref bob wythnos gan ofalu amdani. Diolch i'r Parchg John Pritchard a Mr Myrddin Pritchard am drefnu'r angladd mor drylwyr. Diolch yn fawr i chwi oll am eich caredigrwydd.

Dymuna Monica a Michael ddiolch am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch, Kimberley Ann, chwaer fach i Kevyn Wyn.

Dymuna Mr Ernes Jones, Hafan, ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu mor garedig wrtho tra y bu yn Ysbyty Llandudno.

Dymuna Gwawr ac Euros Williams, Hafle, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion ac arian i Gwawr ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ac i Euros am ei lwyddiant gyda'r cornet.

Dymuna John ac Yvonne Regan ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr.

Llongyfarchiadau i Lyndsey Vaughan Parry, 11 Porth y Gogledd, ar ennill y wobr gyntaf ar yr unawd cerdd dant, o 12-15 oed, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Gorseinon.

Daeth Lyndsey yn gyntaf hefyd mewn tair cystadleuaeth yn Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst — adrodd, cân werin a cherdd dant. Gyda'i ffrind Ceri Ann fe enillwyd y wobr gyntaf ar y ddeuawd cerdd dant yn Eisteddfod Môn a llongyfarchwn y ddwy ohonynt.

Dymuna Lyndsey ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r arian a dderbyniodd yn dilyn ei llwyddiannau eisteddfodol.

Apêl Haematoleg a Gofal Canser Gwynedd: Ar nos Wener, Mai 28, cynhaliwyd Noson Goffi yn neuadd Ysgol Gwaun Gynfi er budd yr apêl. Daeth cadeirydd yr apêl, Dr Jim Davies, i agor y noson a chawsom gefnogaeth dda dros ben. Roedd yno nifer o stondinau a chynhaliwyd raffl ac fe ddiolchir i bawb a wnaeth lenwi'r byrddau ac am y rhoddion hael tuag at y raffl. Gwnaed elw o £520 ar y noson ac fe ddymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Nos Lun a nos Fawrth, 7-8 Mehefin, roedd eglwysi'r pentref yn derbyn rhoddion at yr apêl ac fe dderbyniwyd fel a ganlyn — Ebeneser: £79, Llandinorwig: £77, Libanus: £67, Cefn-y-Waun: £141 a hefyd £200 o'r rhoddion a dderbyniwyd er cof am Elizabeth Griffith, 2 Tai Caradog. Derbyniwyd hefyd £160.21 gan Parti Ceris gan wneud cyfanswm o £724.21. Bellach mae'r cyfanswm yn y banc yn £1887.26.

Yvonne Jones, 11 Stryd Newydd, Deiniolen, a John M. Reagan, Bedivere, Penisarwaun, ar achlysur eu priodas ar Fai 29 yng Nghapel Cefn-y-Waun.

Clwb Snwcer Deiniolen: Dyma'r canlyniadau — Cwpan Coffa Arthur Owen: 1, Gethin Williams; 2, Huw Evans. Cwpan Coffa Idwal Jones, Billiards: 1, John Will. Tarian Lockwell, dwblau: 1, Gethin Williams a Mathew Hughes; 2, Colin Worth a Kelvin Jones. Cyflwynwyd y tlysau i'r buddugwyr gan Mr Tommy Parry. Cafwyd nosweithiau o gystadlu brwd a diolchir i bawb am wneud y nosweithiau yn rhai mor lwyddiannus. Llongyfarchwn Hefin Jones ar gyrraedd rownd gynderfynol Snwcer Gogledd Cymru, ac i Meirion Jones yn y billiards. Hefyd llongyfarchwn dîm y gleision am gyrraedd y ffeinal yng nghyngrair 'B'.

Oedfa Gymundeb: Cynhaliwyd gwasanaeth cymundeb dan nawdd Cyfarfod Dosbarth Padarn yn Ebeneser, nos Fercher, Mehefin 16. Yr oedd yr oedfa yng ngofal y Parchg Gareth Alban.

O Burma: Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghefn y Waun nos lau, Mehefin 3, bu'r Parchg Thla lap yn sôn am ei waith fel gweinidog yn Myanmar (Burma). Gweinidog gydag Eglwys Bresbyteraidd y wlad honno ydyw. Mae'n treulio tri mis yng Nghymru a bu yn Arfon am bythefnos yn nechrau Mehefin. Soniodd am ei ofalaeth o chwech o eglwysi. Roedd y bellaf ohonynt 30 milltir o'i gartref, ac yntau'n gorfod cerdded yr holl ffordd i'w chyrraedd.

Dosbarth y Chwiorydd: Bydd aelodau dosbarth chwiorydd Cefn y Waun ac Ebeneser yn mynd am drip i Ben Llŷn ym mis Gorffennaf. Gobeithir ymweld â Chapel Newydd Nanhoron a chael pryd o fwyd ar y ffordd adref.

Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Bu'r aelodau hefyd yn brysur yn gweu sgwariau ac yn eu gwnïo at ei gilydd yn flancedi. Llwyddwyd i gwblhau tair blanced hardd a bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i fudiad Oxfam. Gwelir rhai o aelodau'r dosbarth yn y llun yn dal dwy o'r blancedi.

PENILLION
DATHLU PEN-BLWYDD
ROBERT LEWIS,
Rhes-y-Faenol, Deiniolen
yn 80 mlwydd oed (16/6/93)

Ymhell yn ôl yn un deg tri,
I fam fe anwyd bachgen
Am hynny heddiw dowch yn llu
I ddathlu pedwar ugian.

Cyfrinach fawr oedd hyn i fod,
O'r ddaear las hyd ofod.
I Alun Wyn estynnaf glod
Am adael i mi wybod.

Ni fynnwn weld y dathlu'n dwyn
I derfyn — heb ei drafod,
A chwithau yn gymydog mwyn,
Pan oeddwn mewn plentyndod.

Yn fyw i'm cof mae'n dod yn awr
Lafurio ar lechweddau.
Nyni yn byw yn Bwlch Cae Mawr
A chwithau yn Corlannau.

Mor felys wedi brwydr frwnt
Yw eistedd a myfyrio;
A Mrs Lewis, a'r hen blant
Yn mynnu eich cofleidio.

Cyfrinach arall ddaeth i'm clyw,
Fod teulu 'Bull' yn brysur
Yn gwneud danteithion o bob lliw,
Er nodi yr achlysur.

Hen gyfaill tawel, teg ei ryw,
Ar ran cymdogaeth gyfan
Dymunaf i chwi 'nghwmni Duw
Ewyllys chwi eich hunan.

DAFYDD CEFN COCH

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Y Bistro
43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871278
CURIAD CALON CYMRU
CURIAD CALON CYMRU

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL

Daeth cryn lwyddiant i aelodau ifanc band Deiniolen yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'r llun uchod yn dangos aelodau y grŵp offerynnol a enillodd y wobr gyntaf yn Eisteddfod Môn, sef Jennie Lyn, Shaun Jones, Urien Huws, Jonathan Roberts, Alaw Mari, Gethin Williams, Rhodri Glyn, Trystan Morris, Arwel Williams a Gethin Jones.

Daeth llwyddiant arbennig hefyd i ddau aelod o'r grŵp uchod. Enillodd Jennie Lyn Morris y Rhuban Glas Offerynnol yn Eisteddfod Môn yn ogystal â dod yn ail mewn cystadleuaeth yn y Rhyl bythefnos yn ôl. Daeth Alaw Mari Huws, 8 Tai'r Faenol, yn gyntaf am adrodd dan 12 a than 15 yn Eisteddfod Môn — tipyn o gamp. Hi hefyd oedd yn fuddugol am adrodd dan 12 yn Eisteddfod Dyffryn Conwy yn ddiweddar. Da iawn chi i gyd.

Iwan G. Williams, Hafle, Rhes y Faenol, a ddaeth yn gyntaf ar yr 'Aire Varie' dros 18 oed (allan o 10 o gystadleuwyr) ac yn ail (allan o 19) ar yr unawd dros 18 oed yn y 'Rhyl Festival of Brass'.

Ugain oed yw Iwan ac yn gynaelod o Seindorf Deiniolen ac ar hyn o bryd mae'n astudio cerddoriaeth yng Ngholeg Cerdd y Gogledd ym Manceinion ac yn aelod o seindorf Marple.



Euros Wyn Williams, Hafle, Rhes y Faenol, 16 oed, aelod o Seidorf Arian Deiniolen.

Daeth Euros yn ail ar yr unawd pres 15-19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Gorseinon, ac yna aeth i'r Fforest Ddu, ger Casnewydd, i gystasdlu ym Mhencampwriaeth Unigol a Phedwarawdau Cymru. Ef yw pencampwr Cymru ar yr unawd 16-18 oed.

ARWEINYDD NEWYDD Y BAND

Penodwyd Mr Cynan Jones yn arweinydd newydd y band. Ganwyd Mr Jones yn ardal 'Stiniog ond bu'n byw yn y de ers rhai blynyddoedd bellach. Daeth ei enw yn amlwg iawn ym myd y bandiau gyda'i lwyddiant gyda band Bedwas, ac yn ddiweddar gyda band Cwmaman. Gobeithir y bydd yn dechrau yn ei swydd ym mis Gorffennaf.

LLONGYFARCH BUDDUGWYR YR EISTEDDFODAU A'U HYFFORDDWYR — A LLWYDDIANT Y TÎM PÊL-DROED

Llongyfarchwn Lyndsey Vaughan Parri
Ar ei buddugoliaeth yn Eisteddfod yr Urdd eleni,
Enwog yn eisteddfodau'n gwlad a niferus ei gwobrwyon
Haeddianol goron i'w holl gystadlu ddaeth iddi yn Gorseinon.

A'r trwmpedwr o Hafle, Rhes-y-faenol
Cyntaf ac ail — campwaith diamheuol;
Ail da y tro yma, 'nid da lle gellir gwell' cofia
Disgwyliwn y cyntaf yn Nolgellau'r flwyddyn nesa.

Clywsom hefyd am lwyddiant mawr yn Eisteddfod Môn
Am lwyddiant mynych Alaw Mari a Jennie Lynn mae llawer sôn;
Llwyddiant eto ddaeth i'r ddwy a'r band bach —
Dolgellau fydd nesaf — does dim sy'n sicrach.

Llongyfarchiadau i'r holl blant, mae pawb yn llawen,
Ymfalchïwn a chefnogwn dalentau amlwg plant Deiniolen,
A diolch a chanmoliaeth i'w hyfforddwyr ymroddgar
Llwyddiant y plant yw eich gwobr chwithau - ni fyddwch yn edifar.

Nac anghofiwn lwyddiant y tîm pêl-droed —
A'u llu cefnogwyr o bob oed,
Yn ail ei safle yn y tabl — ennill un a cholli dwy gwpan
Tîm y cofis cythral 'na ydi'r bwgan.

Yn gefn i'r tîm mae yma swyddogion a phwyllgor ymroddedig,
Gweithgar a chefnogol ar bob tywydd, ac am hel arian yn arbennig;
Pawb at y peth y bo, yntê — arhoswch funud, chwara' teg,
Mae talent rhai yn 'u traed, tra i eraill yn eu ceg.

H.J.

GWASANAETH TRIN GWALLT
YN EICH CARTREF I FERCHED,
DYNION A PHLANT
LINDA MORRIS
1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF
LLANRUG. Ffôn: 678857

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o
Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc – allwch chi
fforddio prynu o batrymau?
WAUNFAWR 650291

Aled
Jones
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio
4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

Wavell
Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: C'fon 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

GERDDI
GLASCOED
(Ger Capel Glascoed)
PENISARWAUN
I'ch gardd
fod ar ei orau
galwch heibio
neu ffoniwch
870453

ECO'R IFANC

Beth fedrwch chi weld ar lan y môr?





'wy oedd yn gwarchod mur Cantre'r Gwaelod?

Chwilair glan y môr.

Traeth	L	L	M	T	A	S	D	B	R
Tywod	N	A	C	R	E	G	Y	N	S
Hufen lâ	B	F	P	I	N	B	H	T	A
Cregyn	A	G	L	P	S	M	O	R	E
Mul	C	H	U	F	E	N	I	A	O
	O	J	A	T	L	C	A	E	M
	W	L	H	D	O	W	Y	T	U
	E	A	B	G	R	N	E	H	L
	H	G	W	Y	L	I	A	U	I

Gwyliau
Haul
Ton
Trip
Môr

gan Janis a menna

Beth sy'n ganol y môr? Ateb = 'Ô' !!

PETH O'R HANES

Mae Siop y Co-op Llanrug yn dathlu canrif o wasanaeth i'w chwsmeriaid, a'r hyn sy'n unigryw i'r siop yn Llanrug yw ei bod yn parhau'n uned annibynnol ac yn parhau i dalu 'difi' i'w haelodau.

Mae 'canrif' Llanrug yn cyfeirio at y dyddiad pryd y cofrestrwyd y Gymdeithas Gydweithredol gyntaf. Canrif swyddogol yn unig sy'n cael ei ddathlu oherwydd mae gwreiddiau'r mudiad yn ymestyn yn ôl am tua hanner canrif ymhellach fyth.

Mae'r mudiad cy-weithredol yn perthyn i'r mudiadau cynharach a sefydlwyd gan y gweithwyr cyffredin i ofalu am eu cyd-weithwyr mewn cyfnod o ddiweithdra, analluedd a salwch. Yn eu plith mae'r Cymdeithasau Cyfeillgar, ac yr oedd nifer o'r rhain wedi eu sefydlu ym mro'r 'Eco' yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf. Yn sicr, roedd cymdeithas o'r fath yn bod yn Llanrug — wedi ei lleoli yn Tŷ Clwb (safle Siop Sglodion Tegfan, neu'r hen Siop Bren).

Cymdeithasau eraill o'r un naws oedd yr Odyddion (Oddfellows) gyda'u pencadlys ym Manceinion, ac yr oedd sefydlu Banciau Cynilo yn ateb yr un pwrpas. Roedd tâl aelodaeth i'r fath gymdeithasau fel arfer tua £1, a'r aelodau wedyn yn cyfrannu ychydig geiniogau yr wythnos tuag at eu cynnal. Un o'u prif amcanion cyn dyddiau'r Wladwriaeth Les oedd talu costau i'r aelodau mewn achosion o salwch.

Datblygodd nifer o'r Cymdeithasau Cyfeillgar hyn i ddod yn Gymdeithasau Cyd-weithredol. Y cyntaf i'w chofrestru dan Ddeddf y Cymdeithasau Cyfeillgar oedd y *Rochdale Society of Equitable Pioneers* yn 1844. Erbyn 1851 roedd tua 130 o Gymdeithasau Cyd-weithredol tebyg i un Rochdale wedi eu cofrestru. Yn 1862 roedd 450 ohonynt, ac erbyn 1875 roedd 1,266.

Parhaodd Cymdeithas Llanrug i weithredu o'r Tŷ Clwb am nifer o flynyddoedd ond ym mis Mai 1902 prynwyd y llain tir lle'r adeiladwyd y siop bresennol.

Mae gan Dylan Hughes, Rheolwr presennol y Co-op yn Llanrug, ddogfennau perthnasol i'r cyfnod cynnar yn hanes y Gymdeithas ond, yn anffodus, mae nifer o gofnodion wedi eu colli dros ganrif o amser. Os oes teuluoedd rhai o'r aelodau cynnar hyn yn gwybod peth o hanes sefydlu'r Gymdeithas byddai'n ddiddorol pe baent yn cysylltu â Dylan yn y siop neu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Ffôn: 0286 673515.

(Crynodeb yw'r uchod o erthygl ddifyr ganddo ef ar hanes y Co-op yn rhifyn diwethaf o Eco'r Wyddfa. Fe'i gwelir ar dudalen 6 o'r rhifyn hwnnw.)

PENIPRINT
PENISARWAUN
Ffôn: 870464 Ffacs: 870506
ARGRAFFWYR CYFFREDINOL A MASNACHOL
★ Gwasanaeth prydlon a phersonol
★ Prisiau cystadleuol
★ Cesglir a danfonir
★ Dim un job rhy fach
DYMUNIADAU GORAU I'R **CO-OP, LLANRUG**. GOBEITHIO Y BYDDWCH YMA YMHEN CAN MLYNEDD ARALL!

ODDI WRTH
MORRIS BROS.
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430
HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS, Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON, Ffôn: 675526

Dymuniadau gorau ar eich canfed penblwydd oddi wrth
GERAINT OWEN
Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 650552
GOSODWR CARPEDI

Lyons Maid ICE CREAM
T & K DAVIES
Cyfanwerthwyr a Manwerthwyr
Adeiladau Madog, Madog St. West
Porthmadog LL49 9DU
Ffôn: Porthmadog (0766) 512423 / 513708 / 513415
Ffacs: Porthmadog (0766) 513664
Llongyfarchiadau ar y canmlwyddiant!

Dewch i weld sut roedd pobl yn siopa ers talwm
Rochdale Pioneers Museum
Toad Lane, Rochdale. Ffôn: 061-832 4300



Cartref y Co-op ers 1844
Ar agor bob dydd
10am - 12
2pm - 4pm
Dydd Sul
2pm - 4pm
Ar gau bob Dydd Llun

NABOD Y STAFF

Mae nifer o staff Cymdeithas Gydweithredol Llanrug wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i'r Co-op. Bu Dylan Hughes, y Rheolwr, yno ers dros 30 mlynedd. Gydag ef yn y llun o'r chwith i'r dde y mae: Mrs Jennie Lloyd Williams, Mrs Margaret Owen, Miss Sandra MacGuiness, Mrs Jane Jones a Mrs Margaret Jones.

Isod gwelir Mrs Jennie Lloyd Williams, o Gaernarfon, tu ôl i'r cownter drapery. Gweithiodd Jennie hefyd i'r Co-op ers dros 30 mlynedd.

100 heb fod allan!

Llongyfarchiadau oddi wrth gwmni

B & F MAGNETO

CYFANWERTHWYR TRYDANOL

Mill Lane

CAERNARFON

Ffôn 672880

JOHN H. OWEN

Caerau, Llithfaen, PWLLHELI

Ffôn: 0758 85326

CYFANWERTHWR

Moddion Patent, Anghenion Ymolchi, 'Hardware' a Nwyddau Cyffredinol

Dymuniadau gorau i'r **Co-op, Llanrug ar** eu canmlwyddiant

Mae **ROSCOWS LTD, BLACKPOOL** a'u cwmni cysylltiedig, **MARSHALLS, RHYL** yn ymuno i longyfarch **Co-op Llanrug** ar eu canfed penblwydd

★★★★★★★★

Cyfanwerthwyr Dillad, Tecstiliau, Teganau a Nwyddau Ffansi i siopau

Am selsig, pasteiod a chigoedd wedi eu coginio ....

R. H. EVANS

Uned 8, Stâd Glan-y-Don

Pwllheli, Gwynedd LL53 5YT

Ffôn: (0758) 614641

DA IAWN CO-OP LLANRUG YMLAEN RWAN I'R CANT NESAF!

100 MLYNEDD O WASANAETH YN Y CO-OP LLANRUG

CHI SYDD PIAU'R SIOP!

Os ydych am fod yn berchen siop — ymunwch â Chymdeithas Gydweithredol Llanrug — chi sydd piau'r siop ac mae'r proffit yn cael ei dalu'n ôl ar ffurf difidend.

Oriau agor y Co-op yw:

8.30 – 5.30
Llun, Mawrth, Iau, Gwener
8.30 – 12.30 Mercher
8.30 – 12.00 Sadwrn
Ar gau dydd Sul

Caiff ordors eu delifro bob bore Gwener, a hynny'n rhad ac am ddim yn ardal Llanrug.

Dymuna Co-op Llanrug ddiolch i'r busnesau a gefnogodd yr Atodiad Hysbysebu hwn. Yn ogystal â'r hysbysebion a welwch cafwyd cefnogaeth ymarferol hefyd ar achlysur y 100 mlwyddiant gan gwmnïau Norwest Footwear a Teisennau Kipling. Dewch chithau ddarllenwyr Eco'r Wyddfa i gefnogi yr unig siop Co-op annibynnol sy' bellach ar ôl yng Ngogledd Cymru.

Mae siop y Co-op ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug, yn dathlu canrif o wasanaeth i'w chwsmeriaid. Ond os holwch chi Dylan Hughes a'i bump o staff, rhoi gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid **heddiw** sydd bennaf ar eu meddwl. Mae'n siop hen ffasiwn, gartrefol, yn yr ystyr orau — y staff yn 'nabod eu cwsmeriaid ac yn rhoi sylw personol a sgwrs.

Mae'r Co-op yn siop pob dim — nwyddau groser, sigarets, diodydd, hardware, glo, dodrefn, teledai, radios, ffrijus, dillad plant, tyweli, esgidiau, ornaments, periannau fideo, hwfers, carpedi, cardiau cyfarch, dillad gwlau, a hyd yn oed y gwlau eu hunain. Hyn oll a llwer mwy.

'Lle mae nhw i gyd?' gofynais i Dylan. Yntau ydach chi run fath â Tardis, Doctor Who, yn llawer mwy tu mewn nag y mae'n ymddangos o'r tu allan?

Mae'r ateb yn syml meddai Dylan. Os 'da chi eisiau prynu stoc nad ydio ar y silffoedd ac eitemau mawr nad oes lle i'w storio gall staff y Co-op eu hordro trwy rwydwaith eang y Co-operative Wholesale Society a hynny am brisiau cystadleuol. Ar ben hynny, os ydych chi'n ymuno â'r 700 o bobl sy'n aelodau o Gymdeithas Gydweithredol Llanrug mi gewch 'difidend' ychwanegol o 3 ceiniog yn y bunt.

Mae ymaelodi'r peth hawsa'n y byd — dim ond rhoi eich enw a'ch cyfeiriad gyda deposit o £2 i un o'r staff ac mi gewch rif aelodaeth. Yna, unwaith y flwyddyn, yn gyfleus cyn y Nadolig, fe delir y 'difi' — ar hyn o bryd tair ceiniog am bob punt a warioch dros y flwyddyn a aeth heibio, heblaw ar sigarets ac alcohol. Mewn geiriau eraill gellwch wario a safio yr un pryd!

Llongyfarchiadau i'r **Co-op, Llanrug**
ar achlysur eu canmlwyddiant

GWENDA HUGHES
PENNANT, SEION
LLANDDEINIOLEN
Ffôn: (0248) 670295
CARDIAU AT BOB ACHLYSUR

C. J. HAND
BENLLECH
Ffôn: (0248) 853489
★ FFRWYTHAU A LLYSIAU ★
★★★★★★★★
Rydym yn falch o fod yn gyflenwyr ffrwythau a llysiau i'r **CO-OP, LLANRUG**
LLONGYFARCHIADAU AR EICH CANFED PENBLWYDD!

Cymdeithas Gydweithredol Llanrug

100 MLYNEDD
1893 - 1993

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau ar eich Canmlwyddiant
CWS Non-Food
Quality & Service

GWASANAETH A GWÊN I GWSMERIAID BODLON Y CO-OP LLANRUG

Dymuniadau gorau oddi wrth

CIS

Co-operative Insurance

sydd hefyd wedi croesi'r cant!

Co-operative Insurance Society Limited, Miller Street Manceinion, M60 0AL, Ffôn: 061-837-4100

Dymuna

Gwynfa a Margaret

PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

Cefn Llwyd, Llanrug

Ffôn: 872263

Bob llwyddiant i'r **Co-op Llanrug** ar achlysur eu canfed penblwydd



CYFLENWYR GLO I'R CO-OP LLANRUG

H.E. HUGHES

a'r MEIBION

LLONGYFARCHIADAU!

870 902

870 444

ac 870220

MASNACHWYR GLO

1 BYTHYNNOD GADLYS, LLANBERIS

LLONGYFARCHIADAU!

Dymuniadau gorau i bawb yn y **Co-op, Llanrug** oddi wrth

PENNINGTONS PACKAGING

★ Arbenigwyr papur a pholythen
★ Bagiau papur, polythen a bagiau cario
★ Sachau sbwriel
★ Anghenion ysgrifennu

Hen Orsaf Rheilffordd

Y FELINHELI

Ffôn: (0284) 670234 Ffacs: (0284) 671215

Rhai o bêldroedwyr ifanc Llanrug yn ystod eu taith gerdded ddiweddar i godi pres i'r Clwb Pêl-droed.

Ennill eto!

Enillydd Cystadleuaeth y Mis, am yr ail fil yn olynol, oedd RHIAN WILLIAMS, Arfon House, Bethel. Da iawn chdi Rhian.

DRAENOG

DANT, SIWPYR GLIW a HALEN TAMP!

Mae'n swnio fel ffantasi, hunllef a stori jacanori i gyd wedi eu cymysgu. Ond mae'n stori wir — ac fe ddigwyddodd i brifathro lleol.

Roedd y prifathro ar ei ffordd i ginio go fawreddog mi dybiwn, draw tua'r Llandudno 'na (cyn y storm fawr a'r dilyw), ac yn cnoi (ia, cnoi yn lle sipian) 'boiled sweet'. Och! daeth y crown i ffwrdd oddi ar ei ddant. Ceisiodd gael gafael ar ddeintydd ar fyr rybudd, ond dim lwc. Mentrodd roi'r crown yn ôl — dros dro — gyda mymryn o siwpyr gliw, ac fe ddaliodd yn iawn tan y cinio. Roedd hi'n anodd cnoi hefo darn o ddant yn sownd efo siwpyr gliw, felly tynnwyd y crown a'i roi ar y bwrdd bwyd wrth ochr y plât. Roedd angen halen ar y cig, ond mae'n rhaid fod yr halen wedi tampio yn y pot, ac aeth y cyfaill ati i daro tîn y pot ar y bwrdd er mwyn ei ryddhau. Yn anffodus, anghofiodd am y crown, ac fe'i chwalwyd yn chwilfriw gan y pot halen. Druan o Dant Arall Jones!

ADOLYGIAD o lyfr Emily Huws 'TISHO TSHIPSAN?'

gan Jennie Lyn Morris a Lynne Roberts (10 oed) Ysgol Gwaun Gynfi

Ma' 'na fabi ar y ffordd, brawd neu chwaer fach i Rhian Mai, Robat John a Sharon.

Yma cawn stori am deulu go iawn, sef Rhian Mai, Robat John, Sharon, Dad a Mam.

Mae mam yn disgwyl babi a phan fu rhaid iddi fynd i'r ysbyty ar frys, gadawyd y siop yng ngofal Rhian Mai, Tas a Tracey Llywela.

Mae Rhian Mai yn ama fod rhyw ddrwg yn y caws a darganfod fod Phil Ffish yn ceisio difetha busnes y Siop Tships.

Brawd gafodd y teulu yn y diwedd.

Teimlwn fod y llyfr yma yn ardderchog ar gyfer plant wyth i ddeuddeg oed ac i rai sy'n hoff o straeon doniol. Ein hoff gymeriadau oedd Tracey Llywela, Rhian Mai a Jas, a'n hoff ran oedd pan ddaliodd Tracey Llywela, Phil Ffish gerfydd ei wddf.

Byddwn yn siŵr o ddweud wrth ein ffrindiau am ddarllen y llyfr yma gan ei fod o mor ddoniol.

Dylai pawb ddarllen 'Tishio Tshipsan?'

Llongyfarchiadau i Emily Huws ar ennill gwobr Tir Na N-Og.

GERAINT OWEN
Gosodwr carpedi a phob math o loriau
Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 650552

CARTREF HENOED
Foelas
Caernarfon
(0286) 674652

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION
Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Gwellhad buan: Dymunwn yn dda i Mrs Ceinwen Mckinnon, Cynefin, Plas Tirion, wedi ei damwain a'i harhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Merched y Wawr: I ddiweddu'r tymor cynhaliwyd Helfa Drysor o amgylch y pentref. Cafwyd noson lwyddiannus a thywydd ffafriol iawn. Mwynhawyd pryd blasus yn Y Felin Wen, Pontrug, ar ddiwedd yr helfa. Yr enillwyr oedd Carys Wynne, Anwen Evans, Charlotte Evans ac Eirlys Williams. Enillwyd y raffl gan Avril Jones. Diolch i Gwenda Roberts am drefnu'r noson.

Plaid Cymru: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen leol ar nos Fercher, Mehefin 9, yn y Sefydliad Coffa. Croesawodd Phyllis Ellis, y cadeirydd, yr holl aelodau a hefyd Tudur Jones, Fron Heulog, fel aelod newydd o'r gangen. Anfonwyd llongyfarchiadau i Iwan Williams ar ei briodas â Meinir o Frynrefail ar Fehefin 19. Llongyfarchwyd hefyd Anwen Owen, Dyffryn, Bryn Moelyn ar ei phenodiad yn ddirprwy bennaeth Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog.

Mynegwyd ein cydymdeimlad ag Arwyn Roberts, Hafle, yn ei brofedigaeth o golli ei dad yn ddiweddar.

Dymunwyd yn dda i'r rhai sydd ag anhwylder arnynt.

Ailetholwyd swyddogion y gangen a diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu ffyddlondeb i'r gangen a'r cyfarfodydd. Bydd cyfle yn fuan i ailymuno â'r Clwb Cant a bydd Cliff Williams yn falch o groesawu aelodau newydd.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen ym mis Medi ac yn y cyfamser bydd y pwyllgor yn cyfarfod yn fuan i drefnu rhaglen y tymor.

Enillwyr diweddaraf y Clwb Cant — Mai: 1, Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach; 2, Gwenda Roberts, Lleifior. Mehefin: 1, Berwyn Hughes, 34 Glanffynnon; 2, Cari Owen, Tŷ Fry.

Diolchiadau

Dymuna Llinos ag Elwyn Parry, Tyddyn Rhuddallt, Llanrug, ddiolch i'w ffrindiau, perthnasau a chymdogion am y llu o anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Dymuna Marina, Dewi, Bryn a theulu y diweddar Now Rhosydd ddiolch am bob cydymdeimlad, caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth sydyn o golli gŵr, tad a brawd annwyl. Diolch am y blodau, cardiau a'r rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Llanrug a'r Waunfawr. Diolchir yn arbennig i'r canlynol: Parchg Elwyn Roberts a'r Parchg John Morris; Mrs Eurwen Darwood, organyddes; Miss C. M. Rowlands; Mr Ren Williams; y Meddygon Teulu; Mr Myrddin Pritchard, Llanberis, am y trefniadau.

Yn dilyn cyngerdd gan Barti Clychau'r Grug yng Nghapel y Cysegr, Bethel, yn ddiweddar, cyflwynodd Mr John Owen, ar ran Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion, lun i Glenys Griffiths, arweinydd y parti, fel gwerthfawrogiad o elw'r noson, sef £240, gael ei drosglwyddo i'r Gymdeithas yng Nghaernarfon.

Ysgol Gynradd Llanrug: Mae cwmni o'r Alban wedi cyhoeddi map dwyieithog o orllewin Eryri ac mae rhai o ddisgyblion yr Ysgol wedi cael cyfle i'w ddefnyddio'n ymarferol.

Derbyniodd plant blwyddyn 6 ugain copi o fapiau cerddwyr gan y cwmni Harveys o Doune, Swydd Perth. Aeth y dosbarth ar daith gerdded i lan Llyn Llydaw wrth droed y Wyddfa, gan ddefnyddio'r mapiau i wneud gwaith maes mewn Daearyddieth fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Cafodd y plant hefyd eu ffilmio ar lwybr Clegyr yn defnyddio'r mapiau. Bydd yr eitem yn ymddangos mewn cyfres newydd 'Ond y Broblem Yw' ar S4C gyda hyn.

Siân Pritchard ac Eryl Jordan wrth eu gwaith ger Llŷn Llydaw.

Gwion Iwan, Owain Williams, Rhys Jones, Gwenlli Mair Pugh a Nia Wyn Hughes, gydag Alan Davies yn y cefndir, ar Lwybr y Mwynwyr.

Daeth Nyrs Parri ar blant blwyddyn 3 a 4 i roi sgwrs ar lendid corff a bwyta'n iach.

Dymuniadau gorau i Miss Lynch sydd wedi ein gadael am seibiant bach a chroeso i Mrs Williams o'r Felinheli at blwyddyn 2. Gobeithio y cewch amser pleserus yn ein plith.

Llongyfarchiadau i bawb o'r plant fu'n cynrychioli'r Ysgol yn nhîm nofio yng Ngala Nofio Arfon: Gwnaeth pawb ei orau glas a daeth y darian fuddugol yn ôl i'r Ysgol eto eleni — cyntaf o ysgolion dros gant a hanner o blant yn Arfon.

Enillwyr Clwb Cant am fis Mehefin — 1, Robin Williams, Tyddyn Ni; 2, Meryl Williams, Minffordd; 3, Michael Homlay, 52 Bro Rhyddallt; 4, Gwawr Evans, 7 Llain Gro; 5, Margaret Williams, Bryn, Cwm-y-glo.

Yr Urdd: Cafodd y ddau barti dawns hwyl dda iawn i lawr yn Eisteddfod Abertawe Lliw ac fe ddawnsiodd y ddau barti yn ardderchog. Ond, anlwcus y buom — gwell lwc y tro nesaf. Diolch yn fawr i'r pentrefwyr i gyd am ein cefnogi.

Gwnaeth tîm mabolgampau'r Ysgol yn dda iawn yn Mabolgampau'r Sir ym Mhorthmadog — ras gyfnewid dan 12 i'r genethod: 1; taflu pêl: 1, Wayne; naid hir dan 12: 2, Siän Green; rhedeg dan 12: 2, Eryl Jordan; naid hir: 3, Eryl Jordan; naid hir dan 10 oed: 3, Iwan.

Llongyfarchiadau i Mrs Anwen Owen ar ei phenodiad yn ddirprwy yn Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog. Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Medi a dymunwn pob dymuniad da iddi.

Mae hi bron yn ddiwedd tymor a diwedd blwyddyn ysgol arall. Byddwn yn ffarwelio â Blwyddyn 6 — pob hwyl i chi yn Ysgol Brynrefail, pennod newydd arall yn eich gyrfa. Cofiwch ddod draw i'r ysgol bach i'n gweld.

Hannah Dorothy Jones o Lys Eiddon, Llanrug (gynt o Bryncoch Terrace) a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

A YDYCH WEDI COLLI BWJI?

Cafwyd hyd i fwji bach glâs yn ardal Cwm y Glo. Am fwy o fanylion cysylltwch â 677551.

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG

Pant Tirion, Llanrug

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi

CORGI GAS IN SAFE HANDS

Aelod o'r *Association of Mechanical Services Contractors*

Dim un dasg rhy fychan Dim un dasg rhy fawr

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn: 677482 (dydd) **870793** (nos)

Gwneuthurwyr ffenestri Drysau, Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed. Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara.

Emrys Owen

Trist oedd clywed y newydd am farw Emrys Owen, Hafan Elan, yn Ysbyty Gwynedd ar 18 Mehefin. Un o hogiau'r Bont oedd Emrys a fagwyd yn Isallt, Rhes Rhythallt yn fab i Mr a Mrs Humphrey Owen. Yr oedd o deulu adnabyddus ym mhentref Llanrug a wnaethant waith clodwiw i'r ardal ers canrif, sef teulu Fron Helyg. Ei ewythr, Robert John Roberts, a fu'n dad i'r teulu wedi i'r tad gael ei ladd yn y chwarel, un o arweinwyr y Capel Mawr, Harri Roberts (Harri bach) arweinydd côr mawr cymysg y pentref ddechrau'r ganrif, Evan Roberts, Penlan, a fu'n arwain côr plant ac yn dysgu plant y pentref i ganu, a Laura Grace, mam Emrys, a oedd yn o sefydlwyr Urdd Gobaith Cymru Fach, fel y gelwid yr Urdd ar y dechrau. Gweithiodd hithau'n galed yn dysgu plant i ganu ac adrodd a chaneuon actol ac yn un o aelodau cwmni drama Pontrhythallt, a fyddai'n perfformio'n flynyddol yn Neuadd yr Eglwys. Roedd Emrys wedi ei fagu yn y 'pethe' a chrefydd a chapel yn rhan bwysig o'i fywyd.

Bu'n garcharor rhyfel am gyfnod a mawr oedd llawenydd y pentref pan glywyd ei fod wedi ei ryddhau ac yn cael dod adref. Wedi iddo ddod adref a chryfhau, ailgydiodd yng ngwaith y pentref gan fyw yn Isallt, pan briododd â Ceri o Benisarwaun.

Yn ddiweddarach aeth i gadw tŷ capel Clapham Junction yn Llundain ac ymaflodd yng ngwaith y capel yno, yn enwedig ym myd y ddrama gan iddo fod wedi hen arfer actio yn nramâu cwmni drama Pontrhythallt.

Ond yn ôl i Gymru y daeth Emrys a Ceri a'u mab Elfyn. Buont yn byw yng Nghaernarfon am sbel ac fe'i etholwyd yn flaenor yng nghapel Beulah, ond roedd Llanrug yn dal i'w alw yn ôl, ac fe ymgartrefodd ym Mro Rhuddallt, ac yn ddiweddarach yn Hafan Elan.

Daliodd i gymryd rhan yng ngwaith y pentref ac etholwyd ef yn flaenor yn y capel lle'i magwyd, sef y Bont, ac fe fu'n llywydd Cymdeithas Blodau'r Grug.

'Gwaith a gorffwys
Bellach wedi mynd yn un.'

Estynnwn ein cydymdeimlad mwyaf diffuant i Ceri ac Elfyn, a Meurig ei frawd yn Llundain (yntau'n flaenor yn Lewisham), ac i'r teulu oll.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Trip: Trefnodd Mrs Margaret Ellis, 5 Nant Ffynnon, drip i Nant Gwrtheyrn ar nos Wener, Mehefin 4ydd. Roedd y tywydd yn arbennig o braf ac roedd yr olygfa wrth fynd i'r Nant yn fendigedig. Wedi cyrraedd cafwyd pryd o fwyd blasus yng Nghaffi Meinir a mwynhaodd pawb eu hunain yn ardderchog. Diolch i'r trefnydd am noson i'w chofio.

Diolch: Dymuna Mrs Myfanwy Thomas, Bron Wyddfa, ddiolch o galon i bawb a'i cefnogodd ar ei thaith gerdded er budd y rhai sy'n disgwyl am lawdriniaeth ar y clun ac yn y blaen yn Llandudno ar Fehefin 6ed, pryd y casglwyd y swm o gant a hanner o bunnoedd.

Cymorth Cristnogol: Casglwyd y swm o £41.40 tuag at Gymorth Cristnogol eleni yn y Nant. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Croeso adref i Helen Mai Pritchard, Tŷ Isaf, ar ôl iddi fod o gwmpas y byd am un mis ar bymtheg. Bu'n teithio hefo'i ffrind Alison o Swydd Efrog, yn gyntaf i'r Unol Daleithiau ac wedyn buont yn Hawaii a Honolulu a Seland Newydd. Wedyn buont yn gweithio am naw mis yn Awstralia lle y cawsant groeso tywysogaidd yng nghartref Mrs Nellie Jones yn Sydney — chwaer Mrs Betty Humphreys a Mr Ernest Owen, Llanberis. Wedyn aethan i Indonesia a Hong Kong a Singapore cyn teithio i Amsterdam lle cawsant fferi oddi yno i Hull ac adref.

YMRYSON CŴN DEFAID NANT PERIS A'R CYLCH

Er gwaethaf y tywydd ansefydlog, cafwyd cystadlu brwd ymysg y ffermwyr ifainc yn Nhreialon Cŵn Defaid Nant Peris gyda Dafydd Pritchard, Nant Peris yn ennill Tarian Gwesty Fictoria am yr ail flwyddyn yn olynol. Enillodd ei frawd, John, y ddwy gwpan i'r cystadleuydd gorau yn y dosbarth lleol. Am y pedwerydd tro fe enillodd John Closs, Llanberis, gwpan cwmni Tithebarn; Huw Morgan, Bethel, a enillodd Gwpan R. Williams Mynytho ac fe aeth Cwpan Llwyncoed i Steven Williams, Bethel.

Canlyniadau:

Dosbarth Agored — Cwpan y Brodyr Morris: 1, Elwyn Griffith, Waunfawr (Chip); 2, Gwynfor Pritchard, Llangybi (Hemp); 3, Glyn Jones, Bodfari (Cap).

Ail Ddosbarth — Cwpan Wavell Roberts: 1, J. E. Evans, Llangefni (Gel); cydradd 2, Tecwyn Roberts, Rhostryfan (Tim) a Gwyn Owen, Llanerchymedd (Taran).

Enillwyd Tarian Gwesty'r Fictoria (y gorau lleol yn y dosbarthiadau Agored ac Ail ddosbarth gan Dafydd T. Pritchard, Nant Peris. Enillwyd Cwpan FMC (y gorau dan 25 oed) gan R. V. Hughes, Rhosmeirch.

Dosbarth lleol — Cwpan Rheilffordd yr Wyddfa: 1, John N. Pritchard (Bess); 2, John Closs, Llanberis (Bob); cydradd 3, Brian Owen, Nant Peris (Toss) a John N. Pritchard, Nant Peris (Lad); cydradd 4, William Hughes, Deiniolen (Rex) a Brian Owen, Nant Peris (Spot); 5, W. A. Williams, Bethel (Siân).

Enillwyd Cwpan Llwyncoed i'r cystadleuydd gorau dan 21 oed gan Steven Williams, Bethel gyda Jet. Enillydd Cwpan R. Williams, Mynytho i'r cystadleuydd gorau dan 25 oed (lleol) oedd Huw Morgan, Bethel gyda B.A. John Closs, Llanberis enillodd Tlws Cwmni Tithebarn (gorau dros 50 oed lleol).

Enillwyr y tair gwobr gyntaf yn y raffl — £100: R. B. Owen, Chwarel y Penrhyn; £50: M. Owen (650234); £25: Clive Woodcock, Cefn Bach, Bethel.

Dymuna'r pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.



Dafydd Pritchard o Nant Peris enillydd Tarian Gwesty Fictoria am yr ail flwyddyn yn olynol.

John Closs, Llanberis. Enillydd Cwpan Tithebarn am y pedwerydd tro.

O'r chwith: Michael Owen, Cadeirydd; Steven Williams (Cwpan Llwyncoed); John Pritchard (Cwpanau y Pedwar Plwyf); John Closs (Cwpan Tithebarn); Dafydd Pritchard (Tarian Gwesty Fictoria); a Huw Morgan (Cwpan R. Williams, Mynytho).

CRONFA GOFFA
R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes
Tan y Clogwyn
LLANBERIS, Gwynedd LL55 4LF
Ffôn: (0286) 871562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn Awst 31ain 1993. Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodedig.

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri
am brisiau rhesymol
ELWYN PRITCHARD
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun – Gwener
10.00 – 3.30
I gysylltu tu allan i'r oriau hyn ffoniwch
Llanberis 870922
neu **Bangor 351427**

Emyr Jones
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513

FFYNIANT CEFN GWLAD

Awdurdod Datblygu Cymru

Haf 1993

TYDI DAMEG YN HELP!



Yr actores Mirain Llwyd Owen yw Delyth Haf.

Pan fydd merch o'r enw Delyth Haf yn dechrau ar ei chwrs coleg y gaea' yma, fe fydd miloedd o bobol yn ei gwylio ac fe fydd gan Awdurdod Datblygu Cymru ran fechan yn ei llwyddiant.

Pan fydd hi'n breuddwydio am ei chariad nesa', neu'n gwingo o euogrwydd wrth fwyta gormod, neu'n poeni am ei siap a'i gwallt a'i ffrindiau, fe fydd ei stori yn ddameg hefyd.

Yr ateb i'r pôs yw'r gyfres deledu "Tydi Coleg yn Grêt", sy'n dod i'r sgrîn ym mis Rhagfyr ac sydd wedi ei golygu ar yr offer mwya' modern posib gan gwmni Ffilmiau Eryri yn Hen Ysgol, Y Felinheli, ger Bangor. Fe gawson nhw arian trwy gynllun DAMEG Awdurdod Datblygu Cymru er mwyn prynu'r offer ac estyn eu swyddfeydd.

Mae'n un o'r grantiau penodol sy'n rhan o waith sy'n cael ei wneud trwy Uned Datblygu Cefn Gwlad yr Awdurdod.

Cymeriad Delyth Haf yw un o rai mwya' poblogaidd Ffilmiau Eryri - fe gafodd ei chreu gan yr awdures Gwenno Hywyn ac, ar ôl ei marwolaeth hi, fe aeth ei gŵr, John, ac un o brif actoresau'r rhaglen, Gwen Ellis, ati i sgrifennu o'r newydd.

Mae'r offer newydd yn golygu ei bod yn bosib trin lluniau a sain yn llawer cynt nag o'r blaen ac fe fydd yr offer ar gael hefyd i hyfforddi pobol ifanc dan y cynllun Cyfle.

Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Datblygu, Dr. Roy Bichan, yn mynd i'r afael â'r offer newydd.

Ffilmiau Eryri oedd y 100fed cwmni i gael grant DAMEG, sydd wedi helpu busnesau i greu gwaith a hybu ffyniant yng nghefn gwlad Cymru.

Ffyniant Cefn Gwlad: Grant DAMEG i annog creu swyddi a datblygu busnesau.

Y GŴR TU ÔL I'R GWAITH



Eleni, fe fydd yr Uned Datblygu Cefn Gwlad yn gwario mwy nag erioed o'r blaen, mewn 21 Ardal Weithredu Arbennig y Rhaglen Ffyniant Cefn Gwlad.

Mae Alun Daniel yn gallu hawlio'n hollol deg ei fod yn gartrefol yng nghefn gwlad Cymru. Yn fab i weinidog, mae Cyfarwyddwr Datblygu Cefn Gwlad, Awdurdod Datblygu Cymru, wedi byw ar ryw adeg yn bron pob rhan ohoni.

Dyna'r sail i'w gred fod rhaid i ardaloedd gwledig fod yn llefydd i fyw a gweithio ynddyn nhw, lle mae hyder economaidd a phleser mewn bro yn cerdded law yn llaw. Ers sefydlu'r Uned Datblygu Cefn Gwlad yn 1991, fe gafodd gyfle i roi'r gred ar waith.

Ddiwedd Mai, roedd newydd ddod yn ôl o seremoni agor Canolfan Telemateg yng Nghastellnewydd Emlyn, lle mae arian yr Awdurdod wedi helpu'r asiantaeth leol, Antur Teifi, i grynhoi adnoddau technegol sydd heb eu hail yng nghefn gwlad.

O ganlyniad, meddai, mae cwmnïau preifat wedi buddsoddi hefyd: "Mae'n dangos fel y gall y dechnoleg newydd gyfrannu at ffyniant yr ardaloedd yma."

Ddyddiau ynghynt, roedd yn Llanfaethlu, Ynys Môn yn gweld agor adeilad cymunedol, yn weithdai, Tŷ Coffi a siop. Yno, roedd gwefr wahanol wrth weld llwyddiant un o'r 21 Ardal Weithredu Arbennig.

"Fe gerddais i mewn ac roedd y pentre' cyfan yno ... llawer o'r to hŷn ond plant yr ysgol hefyd. Roedd yno falchder yn yr hyn oedd wedi'i wneud.."

Fe gafodd yr un pleser wrth weld llwyddiant mewn pentrefi yn Nyfed fel Hen Dŷ Gwyn a Llawhaden: "Y peth pwysig yw fod y bobol leol wedi penderfynu ar yr hyn yr oedden nhw eisio'i wneud a'n bod ni wedi helpu i wneud hynny'n bosib.".

Yr un nod o greu hyder trwy wella'r ardal sydd y tu cefn i gynlluniau ar raddfa wahanol yn Ngorllewin Clwyd lle mae £350,00 yn cael eu gwario ar wella canol Dinbych, er enghraifft. Mae'n un o bedair ardal strategol - yn ei hachos hi, mae'r Awdurdod yn trio gosod sylfeini i gryfhau'r economi yn wyneb y bygythiad i ffermio.

"R'yn ni'n ceisio creu tre' lle mae'n bosib i bobol wella'u busnesau, lle bydd cwmnïau eraill yn gweld cyfle da i fuddsoddi. Mae'r cynllun yng Ngorllewin Clwyd yn enghraifft dda o dynnu cyrff eraill a chynrychiolwyr lleol at ei gilydd."

Yr ardaloedd strategol eraill yw Gorllewin Cymru, ardaloedd llechi Arfon a'r Gwendraeth ac Aman - pob un yn wynebu problemau economaidd sylfaenol.

Ym mhob un, mae'r Uned Datblygu Cefn Gwlad yn gallu tynnu adrannau eraill yr Awdurdod Datblygu ac arian preifat i mewn fel bod rhaglen gyfan yn tyfu i wella'r economi ac ansawdd bywydau'r bobol. Ac, wrth gwrs, gyda'i gysylltiadau ymhobman, mae Alun Daniel yn teimlo'n rhan o bob un.

O LOEGR I LANBERIS, O LANBERIS I'R BYD

Tu ôl i'r llenni yn Euro DPC lle mae Cymry a robots yn gweithio ochr yn ochr.

Arthur Crump

Grisiau llechi hir yn dringo o'ch blaen i borth uchel gwydr mewn adeilad modern, trawiadol. Y tu cefn iddo, mae tomenni llechi'n arwain y llygad tuag at gopa'r Wyddfa yn y pellter ...

Blwyddyn sydd ers i gwmni rhyngwladol Euro DPC symud i Lanberis yng Ngwynedd a chyflogi 165 o bobl. Roedd ganddo gysylltiad â'r ardal cyn hynny ac roedd gan Awdurdod Datblygu Cymru ran yn y gwaith o lunio'r pecyn o wasanaethau ac arian a lwyddodd i selio'r fargen.

Y tu mewn, mae grisiau anferth arall yn agor ar gyntedd eang gyda rhagor o wydr yn y to - y cyfan yn cyfleu mawredd a golau. Y ferch sydd yno i'ch croesawu yw Rhian Owen, un o'r 90% o'r staff sy'n siarad Cymraeg. "Dwi'n cyfarfod pobl newydd trwy'r adeg gan fod pobl yn dod i ymweld o bob man yn y byd," meddai. "Mae argraff gynta'n bwysig iawn."

Fe ddaw dyn ifanc gyda barf a sbectol i gwrdd â chi - Cymro arall. Mae Arthur Crump yn un o reolwyr cyffredinol Euro DPC ond, cyn hynny, roedd yn wyddonydd gyda chwmni bychan lleol ADC yn y Felinheli. Roedd hwnnw'n cynhyrchu peiriannau profi gwaed; fe brynodd Euro DPC i mewn iddo, cyn ei brynu'n llwyr a chau eu pencadlys yn Ne Ddwyrain Lloegr.

"Pwrpas ADC oedd cynllunio a chynhyrchu peiriannau ac Euro DPC yn cynllunio a chynhyrchu cemegau," meddai Arthur Crump. "Erbyn hyn mae'r ddau wedi dod at ei gilydd yn Llanberis. Yr uned hon yw'r pencadlys Ewropeaidd." Dim ond 20 o staff gwreiddiol Euro DPC a benderfynodd symud o Loegr ond roedd yn rhoi cyfle newydd i'r 53 o weithwyr yn ADC ac fe gafodd y gweddill eu cyflogi'n lleol.

Y tu hwnt i'r cyntedd cyhoeddus, mae ehangder y ffatri ei hun lle mae rhesi o gyfrifiaduron a pheiriannau electronig - cynnyrch diweddara'r cwmni yw peiriant robotaidd sy'n gallu profi degau o samplau gwaed ar yr un pryd.

Mae'r peiriannydd mecanyddol, Sam McWheeney, bellach yn cael cyfle i sgrifennu llawlyfrau i fynd gyda'r peiriannau i bob rhan o'r byd. "Mae'r gwaith yn ddiddorol ac yn sialens newydd," meddai.

Yn awr, fe fydd Euro DPC yn cael ei ddefnyddio gan Awdurdod Datblygu Cymru i fod yn garreg sylfaen i ddatblygu pellach yn yr ardal. Fe fyddan nhw'n trïo denu rhagor o gwmnïau arbenigol i fanteisio ar adnoddau'r ardal, yn bobl a gwasanaethau.

Mae mwy nag 20 o gwmniau wedi sefydlu yng Ngwynedd yn ystod y ddwy flynedd diwetha' ac fe fydd yr Awdurdod Datblygu'n rhan o bartneriaeth gydag awdurdodau lleol i lansio ymgyrch newydd o'r enw Technopol i ddenu cwmnïau sydd ym maes gofal a iechyd.

Ffyniant Cefn Gwlad: Arian at baratoi safle a chymorth buddsoddi mewnol i ddenu cwmnïau o'r tu allan.

DOD Â BYWYD NEWYDD I DDAU GWM

Ddiwedd Mai ac roedd Huw Thomas yn teimlo fymryn yn ddigalon ac yn ofnadwy o obeithiol yr un pryd. Roedd yn eistedd mewn swyddfa newydd gyda chelfi ac offer o'i gwmpas ond dim gwres na dim i wneud dishgled o de.

Ar y llaw arall, roedd yn gwybod ei fod yn dechrau ar gynllun i weddnewid ei ardal - ef yw Cyfarwyddwr cynta' Partneriaeth Aman-Gwendraeth lle mae Awdurdod Datblygu Cymru'n helpu i dynnu cyrff cyhoeddus a phobol leol at ei gilydd i roi bywyd newydd i'r cylch.

"Rwy'n teimlo'n gynhyrfus iawn am y peth," meddai. "Rwy'n dod o'r ardal fy hun ac, ar ôl deng mlynedd gyda'r Awdurdod, rwy' am allu canolbwyntio ar un lle ac ymwneud â'r gwaith o ddydd i ddydd."

Fe fydd rhaglen Ffyniant Cefn Gwlad yr Awdurdod yn un o bum adain i'r cynllun - yn canolbwyntio ar waith cymunedol ac ar welliannau i ansawdd bywyd yn y pentrefi o amgylch canolfannau Rhydaman a Cross Hands. Yn ôl Huw Thomas, mae hynny a datblygiad economaidd yn gorfod mynd law yn llaw.

"Mae'r bobol fusnes yn byw yn y pentrefi," meddai. "Mae eisiau amgylchedd fel bod pobol ifanc yn gallu aros." O wella golwg yr ardal, fe fydd hi'n bosib creu teimlad o hyder ymhlith pobol leol a rhoi argraff ffafriol i gwmnïau sy'n ystyried symud i mewn.

Mae adeiladau a thir diffaith wedi cael eu gwella mewn pentrefi fel Cwmllynfell a Gwaun Cae Gurwen, meddai Cyfarwyddwr Gorllewin Cymru i'r Awdurdod Gordon Reed. Mae yntau'n dod o'r ardal ac yn gweld pa mor bwysig yw gwella ansawdd bywyd er mwyn creu hyder a gobaith.

Bellach, mae gan Huw Thomas wres a modd i wneud dishgled - yn llawer pwysicach, mae'r gwaith o adfywio Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth wedi dechrau o ddifri' ac mae'n un o nifer o ardaloedd trwy Gymru lle mae'r Awdurdod Datblygu'n defnyddio'i rôl ganolog i ysgogi datblygiadau.

Ffyniant Cefn Gwlad: Grantiau gwella'r amgylchedd. Cyfanswm o 142 gynlluniau ar hyd a lled Cymru

Cymru ar y blaen

FFENEST SIOP I FFYNIANT

Mae ardal wledig yng Ngwynedd wedi cael ffenest siop i'w busnesau a'i chynhyrchwyr, trwy fod yn rhan o gynllun i hybu economïau cefn gwlad ar draws Ewrop.

Gyda De Gwynedd - Dwyfor, Meirionnydd a Dyffryn Nantlle - yn un o bedair ardal yng Nghymru i gael ei chynnwys yn rhaglen LEADER y Gymuned Ewropeaidd, mae peth o'r arian wedi'i ddefnyddio i agor Canolfan Farchnata ym Mhorthmadog.

Ddiwedd Mai, roedd yn cael ei hagor yn swyddogol yng Nghanolfan Porthmadog gydag Arddangosfa Gwasanaethau i Fusnes. Mae Arddangosfa Cartref '93 hefyd wedi'i threfnu ac fe fydd arddangosfa barhaol.

Marchnata oedd un o'r meysydd allweddol, yn ôl y Swyddog Cyswllt, Elwyn Vaughan. "Mae yna lawer o unigolion mewn busnes mewn ardal fel hon. Yn aml iawn, mae eu cynnyrch yn well na'r ffyrmiau mawr ond does ganddyn nhw ddim modd i arddangos eu gwaith ac mae nhw'n methu â thorri trwodd i'r marchnadoedd."

Gydag Awdurdod Datblygu Cymru'n arolygu gwaith y cynlluniau LEADER yn Ne Gwynedd, Dyffryn Teifi ac Arberth, mae'r prosiectau yng Nghymru wedi cael eu canmol gan swyddogion y Gymuned am ddangos y ffordd i eraill.

HUFEN IÂ AR Y MAP

Mae un o gwmnïau hufen iâ enwoca' Cymru wedi cael help marchnata dan gynllun LEADER. Trwy ddefnyddio gwasanaethau'r arbenigwr sydd wedi ei gyflogi gan y cynllun yn Ne Gwynedd, Chris Harley, fe lwyddodd y cwmni i roi eu hufen iâ ar y map - yn llythrennol.

Er bod Hufen Ia Cadwaladr yn enwog am ei siop wreiddiol yng Nghricieth, roedd y cwmni'n awyddus i bwysleisio fod ganddyn nhw bum siop arall yn y Gogledd. Yr ateb oedd cael carden i gwsmeriaid ei llenwi wrth fynd o siop i siopa chael disgownt cynyddol bob tro.

"Roedd y cyfle i drafod marchnata gydag arbenigwr yn werthfawr," meddai Rheolwr Gyfarwyddwr y cwmni, Richard Gloster.

Ffyniant Cefn Gwlad: Yr Awdurdod yn rhoi sêl ei fendith ar gynlluniau ac yn arolygu'r gwaith. Mae cynllun LEADER yn dod â £2.4 miliwn i mewn i gefn gwlad Cymru.



Pluen yn chwipio'r dwr, haul hwyr ar Afon Tywi a physgotwr yn cael cyfle unwaith eto i fwynhau ei hoff hobi. Diolch i bartneriaeth rhwng Awdurdod Datblygu Cymru a Chlwb Pysgota Llanymddyfri, mae llwyfan wedi ei godi ar lan yr afon yn arbennig i bobol anabl. "Mae'n rhan o gynllun gwella'r amgylchedd ac yn help i ddenu rhagor o ymwelwyr," meddai Cyfarwyddwr Gorllewin Cymru i'r Awdurdod, Gordon Reed. Yr unig beth na fedran nhw'i addo yw pysgod mwy!

Ffyniant Cefn Gwlad: Cynllun gwella'r amgylchedd.

PLESER PUR!

GWEITHREDU - AR ÔL TRAFOD

Mae pobol dau o ddyffrynnoedd y chwareli yng Ngogledd Cymru newydd gael cyfle i roi eu barn ar ddyfodol eu hardaloedd. Trwy greu arddangosfeydd o'r cynlluniau sydd ar droed fel rhan o'r cynllun Ffyniant Cefn Gwlad yn Nyffryn Nantlle a Dyffryn Ogwen, mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi gwneud yn siwr fod y datblygiadau'n cael cefnogaeth pobol leol.

Mewn trefi fel Pwllheli, Porthmadog a Llanrwst, mae arian mawr wedi'i wario ar wella strydoedd a chanolfannau, gyda'r Awdurdod yn darparu'r rhan fwya' ohono. Ond mae'r cyfan yn rhan o waith ehangach ar hyd a lled y Gogledd Orllewin.

"Yr hyn yr ydan ni'n drio'i wneud ydi dod â phawb at ei gilydd mewn math o Task Force," meddai Swyddog Datblygu'r Awdurdod yn yr ardal, Dafydd Hughes. "Er fod nifer o gyrff yn gwneud y gwaith, mae'n bwysig fod pawb yn gweithio o fewn strategaeth."

Coffi yn y Fro

Mae Bro Alaw yn Ynys Môn yn wahanol i bob un o'r Ardaloedd Gweithredu eraill gan ei bod yn cynnwys 13 o gymunedau. Mae yno un neu ddau o gynlluniau gwahanol hefyd - fel Tŷ Coffi yn Llanfaethlu.

Pan oedd yr ymgyrch yn erbyn y ddiod gadarn ar ei chryfa' yn y ganrif ddiwetha', fe gafodd Tŷ Coffi ei agor yn y pentre' yn hytrach na thafarn. Yn awr, mae partneriaeth newydd gan bobol y cylch wedi arwain at ei adfywio a chreu siop a gweithdai hefyd.

Adfer hen siop

Mae pentre' Llanfyrnach yn Sir Benfro yn berchen ar siop draddodiadol unwaith eto. Roedd pethau'n edrych yn ddu, nes i ferch leol o'r enw Menna Phillips ei throi'n llwyddiant ysgubol.

Fe gafodd help gan Menter Bro Preseli, sy'n cael cefnogaeth ariannol yr Awdurdod Datblygu, er mwyn rhoi trefn ar y cynllun busnes.

"Roeddwn wedi breuddwydio amdanaf fy hun yn sefyll y tu ôl i'r cownter," meddai. Fe ddaeth y freuddwyd yn wir ac fe enillodd wobrau cenedlaethol am ei menter.

Ffyniant Cefn Gwlad: Yn 1991-2, fe roddodd yr Awdurdod ei hun £2¼ miliwn. Eleni, fe fydd yr Awdurdod yn buddsoddi £4 miliwn ar gynlluniau i wella'r amgylchedd fydd yn cyfrannu tuag at ffyniant economaidd ond, o ganlyniad i hynny, fe gaiff £10 miliwn ei fuddsoddi yn yr ardaloedd gan gyrff cyhoeddus a'r sector breifat.

FFERM Y FFÔN

Cwestiwn: Beth yw'r cysylltiad rhwng ffôn, tractor a chompiwtar?

Ateb: Cynllun Cylch Peiriannau Sir Benfro.

Mae'r dyn sydd â'r ffôn yn ei law, Graham Perkins, wedi sefydlu cronfa peiriannau fferm. Gyda help gan Awdurdod Datblygu Cymru, mae'n cynnal prosiect arbrofol i weld a fydd modd ehangu'r cynllun.

Cwestiwn: Sut mae'n gweithio?

Ateb: Pan fydd ffermwr yn ymuno â'r cynllun, fe fydd yn dweud pa beiriannau fferm sydd ar gael ganddo i'w hurio. Mae Graham Perkins yn cadw'r wybodaeth ar ei gyfrifiadur ac, wedyn, pan fydd unrhyw aelod angen peiriant ar frys, mae'r wybodaeth yno i ddweud ble mae cael peiriant o'r fath, sut mae ei hurio a beth fydd y pris.

Ffyniant Cefn Gwlad: Arian at brosiect peilot i helpu'r cynllun i ddechrau. Os bydd yn llwyddiant, fe allai gael ei ymestyn neu ei ddynwared mewn ardaloedd eraill.

PANDY A'R GROES - FFORDD YMLAEN

Ddiwedd Mai, roedd yna olygfa anarferol i'w gweld ym mhentre'r Groes ger Dinbych wrth i griw o ffermwyr a phentrefwyr eraill symud sêff ar hyd y stryd. Roedd y tynnu a'r gwthio, y straenio a'r bustachu yn arwydd o fywyd newydd.

Roedd y sêff yn cael ei symud o neuadd y pentre', lle bu'r gwasanaeth llythyrdy dros dro, i'r hen garej lle mae un o'r pentrefwyr, Sandra Knupell, wedi agor siop, llythyrdy a gorsaf betrol.

Ddwy flynedd yn ôl, roedd y fath beth yn ymddangos yn amhosib - roedd siop a llythyrdy'r pentre' wedi cau, y garej ar werth ac roedd hi'n ymddangos fod y Groes am ddilyn hanes sawl pentre' arall a cholli ei wasanaethau. Yna, fe aeth y pentrefwyr ati i sefydlu cwmni cymunedol. Nhw bellach biau'r adeilad.

"Roedd yna ambell un yn proffwydo methiant cyn inni ddechrau ond mae pawb wedi cydweithio'n dda," meddai Cadeirydd y Cwmni, Robin Davies. "Mae wedi bod yn slog go hir - ond, ydi, mae'n werth chweil."

Fe fydd cynllun o'r fath yn rhoi hyder newydd i bobol yr ardal sefyll ar eu traed eu hunain, meddai Berwyn Evans o Fenter Hiraethog, yr asiantaeth a roddodd gefnogaeth ac anogaeth i'r fenter. Roedd ef eisoes wedi gweld cynllun tebyg yn llwyddo ym Mhandy Tudur ger Llanrwst, lle cafodd yr hen siop ei hachub a'r adeilad ei droi hefyd yn dy, fflat a thri gweithdy bychan.

Fe gafodd y ddau gynllun gymorth ariannol gan Awdurdod Datblygu Cymru - £20,000 i Bandy Tudur, £16,000 i'r Groes - a'r Awdurdod hefyd yw prif gefnogwyr Menter Hiraethog ei hun. Y ddwy gymuned oedd eisio gweithredu a nhw gododd lawer o'r arian ond y Fenter a helpodd i droi breuddwydion yn ffaith.

"Roedden ni'n gallu gwneud llawer o'r gwaith ac yn rhoi hygrededd wrth fynd at wahanol awdurdodau," meddai Berwyn Evans, sy'n dweud mai dim ond trwy sefydlu cwmni cymunedol yr oedd hi'n bosib denu arian nawdd.

"Dwi'n credu fod y ddwy gymuned yma wedi dangos y ffordd ymlaen i gymunedau gwledig," meddai, ac mae pentrefwyr y Groes eisoes yn ystyried cynlluniau pellach.

Ffyniant Cefn Gwlad: Grant addasu adeiladau a Chynllun Gweithredu Gwledig Hiraethog; prif noddwyr Menter Hiraethog.

PWY YW PWY

Mae gan Awdurdod Datblygu Cymru dîm profiadol o gynghorwyr busnes yn gweithio o'u swyddfeydd rhanbarthol i roi help ymarferol i gwmïau ac unigolion. Gall hynny amrywio o roi gwybodaeth ynglyn ag agor marchnad yn Ewrop i roi Cyngor ar dechnoleg newydd.

Fe gafodd y Rhaglen Ffyniant Gwledig ei dechrau yn 1991 ac mae'r Awdurdod wedi sefydlu Uned Datblygu Cefn Gwlad, dan arweiniad Alun Daniel. Mae pedair swyddfa ranbarthol gyda rheolwyr datblygu a gweithwyr rhan amser yn y cymunedau. Dyma'r enwau a'r cyfeiriadau i chi gysylltu â nhw:

Uned Datblygu Cefn Gwlad: Canolfan QED, Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd, Morgannwg Ganol. Ffôn: (0443) 841408. Ffacs: (0443) 841966.

Gogledd Orllewin Cymru: Llys-y-Bont, Parc Menai, Bangor, Gwynedd LL57 4BN. Ffôn: (0248) 670076. Ffacs: (0248) 671197.

Gogledd Ddwyrain Cymru: Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, Wrecsam, Clwyd LL13 9UF. Ffôn: (0978) 661011. Ffacs: (0978) 661007.

Caerfyrddin: Ystad Ddiwydiannol Cillefwr, Treioan, Caerfyrddin, Dyfed SA313RB. Ffôn:(0267) 235642. Ffacs: (0267) 236642.

FFYNIANT CEFN GWLAD

WDA

BETH YW BETH

Dyma rai o'r cynlluniau sydd ar gael:

Grantiau **DAMEG** - er mwyn annog twf a swyddi newydd ar gyfer prosiectau yn y sector gwasanaethau.

Grantiau **ADDASU** - i droi adeiladau segur yn safleoedd busnes.

BENTHYCIADAU - ar gyfer creu gwaith mewn diwydiannau gweithgynhyrchu neu wasanaeth. Mae dau gynllun gwahanol ar gyfer benthyciadau mawr a bach.

EIDDO - Unedau masnachol o 500 i 25,000 tr sgwâr.

GWASANAETHAU - dewis eang i gefnogi busnesau sydd am ddatblygu ac ehangu.

Yr Atodiad hwn wedi'i sgrifennu a'i ddylunio i Uned Datblygu Cefn Gwlad, Awdurdod Datblygu Cymru, gan Golwg Cyf. Ffôn: (0570) 423529.

LABIO

gan Y GWALCH

Ni chefais fawr o hwyl wrth weithio hefo merched, ond cyn i mi syrthio i ragfarn, cystal fydd cofio fod llwyddiant yn aml yn dibynnu ar ffawd ac amgylchiadau.

Roeddwn yn gweithio mewn swyddfa cwmni gwerthu ar lab am gyfnod. Roedd tiriogaeth fasnachol y cwmni yma yn ymestyn dros Brydain ac yn cofleidio Ynys Môn a Llŷn yn ogystal.

Sefydlwyd y busnes gan Iddew, a oedd wedi darganfod yn gynnar yn ei oes fod chwant y ddynoliaeth am eiddo a safle yn llawer trech na'i ddeisyfiad i gadw yn glir o ddyled. Er mwyn hyrwyddo ei fasnach cyflogai asiantwyr ym mhob plwyf drwy'r deyrnas; y rhai a adwaenir yn lleol fel 'yn rhedeg clwb'. Derbyniai'r Iddew symiau o arian gan rhai bob wythnos, ynghyd ag archebion eu cwsmeriaid — y rhai hynny a gredai fod dedwyddwch a thangnefedd yn cyrraedd mewn catalogau a blychau pacio.

Merched gan fwyaf a weithiai yn fy adran i, ac yr oeddem yn ymdrin â busnes Sir Forgannwg. Gwragedd glöwyr oedd y cwsmeriaid a ddewisiai ddodrefnu eu tai, dilladu eu teuluoedd priodi a marw; y cyfan drwy gyfrwng y catalog, a hynny hefo arian nad oedd eto heb ei ennill.

Fy ngwaith i oedd derbyn y taliadau a delio hefo archebion a chwynion, yn aml ar ffurf llythyrau anllythrennog, a mantais oedd meddu ar ddychymyg ystwyth i'w trin.

Byddai cwynion yn cyrraedd weithiau oddi wrth gwsmeriaid ynglŷn â nwyddau nad oeddent wedi cyrraedd, neu wedi eu hanfon i gyfeiriadau anghywir. Er mwyn cywiro'r camgymeriadau, rhaid oedd i rhywun fynd i lawr y grisiau i'r stocrwm i hysbysu'r merched yno am y problemau. Am reswm aneglur, roedd rhyw elyniaeth ddosbarthol draddodiadol rhwng genod y stocrwm a merched y swyddfa, a hwylustod mawr i'r rheiny oedd gallu fy mherswadio i i fynd i drosglwyddo'r negesau amhoblogaidd. Ac ar ôl y tro cyntaf difethwyd fy awydd innau i fynd yno hefyd.

Roedd y stocrwm yn debyg i weledigaeth Dante o'r tanddaearol leoedd. Safai dwsinnau o enethod wrth safnau cafnau sythion a chwydai nwyddau wrth y dwsin i fasgedi enfawr ar olwynion. Ar ôl cael eu llenwi, anfonid y basgedi i lawr ramp goncrit i iard allanol, lle y deuai cerbydau'r post a'r rheilffordd i'w cyrchu.

Wrth i mi gerdded ar draws y llawr sylwais fod amryw o'r genethod yn pwnio eu gilydd a chrechwenu. Pan oeddwn yn dychwelyd, amgylchynwyd fi gan gryn hanner dwsin, a chyn i mi ddirnad beth oedd eu bwriad, gafaelasant ynof am taflu yn gorfforol i un o'r basgedi gweigion, a'm gollwng wedyn i lawr y ramp i'r stryd. Wrth i mi geisio dringo allan o'r fasged, dymchwelodd honno, ac i gadw hynny o urddas a feddwn yn weddill, bu rhaid i mi fynd rownd drws y ffrynt i ddychwelyd i'r swyddfa. Ond doedd yna fawr o gydymdeimlad i'w gael yno chwaith. 'Sut hwyl gefaist ti?' meddent.

Ond daeth fy nymchweliad o gyfeiriad hollol anisgwyl yn y diwedd, pan gefais fy nhrosglwyddo i gynorthwyo adran arall am gyfnod. Roedd honno yn trin busnes asiantwyr Sir Gaernarfon. Un diwrnod deuthum o hyd i gyfrifon rhyw ddynes a adwaenwn o'm bro fy hun. Roedd hi unwaith wedi ennill enwogrwydd drwy ddefnyddio cronfa drysorol rhyw fudiad at ei phwrpas ei hun. Wrth gydnabod ei llythyr, roedd hi'n ormod o demtasiwn i mi beidio ychwanegu yn Gymraeg ar y gwaelod, 'Peidiwch â gwario'r elw i gyd.' Ac anghofiais am y peth.

Ymhen rhyw wythnos fodd bynnag, galwyd fi i swyddfa'r rheolwr. Roedd ei agwedd yn foesgar ddigon. Wrth ei ochr eisteddai dyn trwsiadus a ddeuai i'r swyddfa o dro i dro.

Yna estynodd y rheolwr gyfrifon y wraig o Sir Gaernarfon, a'm llythyr iddi, a oed wedi ei ddychwelyd ynghyd ag ymholiadau miniog ynglŷn â'i awdur. Gofynnodd y dyn ai myfi oedd hwnnw. Dywedais innau mai fi oedd y dyn hwnnw. Wedyn gofynnodd am gyfieithiad o'r frawddeg ar y gwaelod.

Atebais innau mai rhyw neges fach o werthfawrogiad a chalondid oedd hi, ond trodd y rheolwr at y gŵr arall, a chyfieithodd hwnnw y frawddeg air am air. Cymwynas un Cymro alltud i un arall fel petae.

Cefais y dewis wedyn o un ai adael neu fynd i lawr i'r stocrwm yn barhaol. Ar ddydd fy ymadawiad fodd bynnag, rhoddodd merched fy adran anrheg i mi ar ffurf pin i roi yn fy nhei. Wn i ddim a oedd yna rhyw arwyddocad yn hynny. Diolchais yn dwym amdano fodd bynnag, a chusanais un neu ddwy.

* * * *

Hen wraig wedi prynu rhewgell am y tro cyntaf, a dim yn siŵr ben i'w roi ynddo a beth i beidio. I wneud yn siŵr fe aeth yn ôl i'r siop i ofyn i'r dyn.

'Deudwch i mi,' meddai. 'Am faint y dylai cyw iâr gadw ynddo fo?'

'O, i fyny i ddau fis,' meddai'r dyn.

'Roeddwn i'n meddwl nad oedd o ddim yn gweithio'n iawn,' medda hi. 'Mi rois i geiliog ynddo fo neithiwr, ond, erbyn y bora ma roedd o wedi marw.'

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Dyweddiad: Llongyfarchiadau i Christine Ann Jones, merch Mr a Mrs Arthur Jones, 5 Trem Eilian, ar ei dyweddiad ag Adrian Salisbury, Ael-y-garth, Llanwnda ar Fai 21ain.

Genedigaeth: Estynnwn longyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Iwan a Delyth Jones, 5 Minffordd, ar enedigaeth eu mab bychan, brawd i Llion, ŵyr i Eifion ac Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian a gor-ŵyr i Mrs Hannah J. Jones, 7 Trem Eilian.

Cymdeithas y Chwiorydd: Cyfarfu aelodau cymdeithas chwiorydd M.C. Brynrefail yn y Festri ar nos Iau, Mehefin 3ydd, dan lywyddieth Mrs Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog. Roedd y defosiwn dan ofal Mrs Betty Owen, Tros yr Afon. Rhoddodd y llywydd groeso i'r wraig wadd am y noson, Miss Iola Llywelyn Griffith a chafwyd orig ddifyr yn ei chwmni yn olrhain hanes y delyn ynghyd â datganiadau o gerddoriaeth werin ar y delyn geltaidd. Diolchwyd iddi gan Mrs Jennie Maxwell, Bro Dawel. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Ifanwy Jones a Miss Lowri P. Roberts, a diolchwyd iddynt gan Mrs Dwynwen Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 1af yng nghwmni Mr Ifan Wyn Williams, Rhosmeirch. Nos Wener, Gorffennaf 16eg, dan nawdd y Gymdeithas cynhelir Ffair Haf a Barbeciw ar iard yr hen ysgol fach. Agorir y ffair gan Mr Glyn Tomos, Dinorwig. Dewch yn llu.

Eglwys M.C. Brynrefail: Bnawn Sul, Mehefin 6ed, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan nawdd yr aelodau ar thema'r Pentecost. Cymerwyd rhan gan Mr Richard W. Evans, Ty'n Buarth; Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir; Mrs Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog a Mr Maurice Jones, Meillionen. Fore Sul, Mehefin 13eg, a'r gweinidog, y Parchg John Morris yn gwasanaethu, bedyddiwyd Ceri Mair, merch fach Michael ac Alwen Jones, 8 Glanmoelyn, Llanrug. Y ddwy fam fedydd oedd Caron Haf Jones, Llanrug ac Awen Jones, Gaerwen, a'r tad bedydd oedd Keith Roberts, Gaerwen. Yr organyddes yn y ddau wasanaeth oedd Miss Lowri Prys Roberts. Yn yr oedfa hwyrol, nos Sul, Mehefin 20fed, a'r gweinidog yn gwasanaethu, gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Yr organyddes oedd Mrs Mair Davies.

Sefydliad y Merched: Ymhlith gweithgareddau y gangen leol yn ddiweddar bu cyfarfyddiad o'r aelodau nos Lun, Mai 17eg, i drafod argymhellion y Cyfarfod Blynyddol, dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Mair Jones a Mrs Myfi Roberts ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Jean Davies, gan Mrs Jennie Hughes. Nos Lun, Mehefin 21ain, estynnwyd croeso cynnes i'r wraig wadd am y noson, sef Mrs Joyce Dorset o Benrhosgarnedd, gan y llywydd. Arddangoswyd ganddi enghreifftiau cywrain o waith les. Yn feirniad swyddogol ar gystadlaethau safonol yn y grefft roedd yn amlwg fod yr aelodau yng nghwmni pen-campwraig. Diolchwyd iddi am ei sylwadau diddorol a'i harddangosfa o waith cywrain gan Miss Lowri P. Roberts. Paratowyd y baned gan Mrs Betty Owen a Mrs Pat Jones. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Eirlys Williams, oedd Mrs Dwynwen Williams. Bydd Trip Dirgel Blynyddol y gangen ar nos Lun, Gorffennaf 12fed, a'r trefniadau yng ngofal Mrs Eirlys Williams a Mrs Euronwy Roberts.

Priodas: Ddydd Sadwrn, Mehefin 19eg, yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, priodwyd Meinir Wyn Jones, merch Mr a Mrs Islwyn Jones, 3 Trem Eilian â Mr Iwan Wyn Williams, mab Mr a Mrs C. W. Williams, Awelon, Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Gweinyddwyd gan y Parchedig E. Roberts, Bangor a'r organyddes oedd Mrs Valmai Williams. Y forwyn oedd Miss Marian Lloyd Jones (chwaer y briodferch) a'r gwas oedd Dylan Williams (brawd y priodfab). Cynhaliwyd y brecwast priodas yng Ngwesty Carreg Brân, Llanfairpwll. Mae'r priodfab yn dilyn galwedigaeth fel argraffydd yn y Coleg Normal ym Mangor a'r briodferch yn gyfrifydd technegol yng Nghyngor Sir Gwynedd. Byddant yn cartrefu yn Pant-y-rhyd, Ffordd Glanffynnon, Llanrug. Dymunwn yn dda i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

Barbeciw: Nos Sadwrn, Awst 28ain, cynhelir Barbeciw yn iard yr hen ysgol fach dan nawdd Côr Meibion Dyffryn Nantlle. Hwn fydd yr eildro i'r Côr gynnal barbeciw yn y pentref a phrofodd yr ymweliad cyntaf yn dra llwyddiannus. Mae'r Côr yn wynebu ar daith i'r Amerig, fel rhan o Gôr y Byd, yn ystod 1994, a bydd elw'r noson yn mynd tuag at dreuliau'r daith. Trefnir y noson gan aelodau lleol o'r Côr.

Plygu'r Eco: Gair o ddiolch i'r ffyddloniaid a ddaeth i blygu'r Eco y mis diwethaf, a diolch arbennig i ambell wyneb newydd a ddaeth i'n cynorthwyo yn y gwaith.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon (Waunfawr 799)

Llongyfarchiadau i Bryn a Sharon, Gwynfryn, ar enedigaeth eu merch Enfys, ar Fai 28, chwaer fach i Gethin.

Ennill Gradd: Llongyfarchiadau i Cynrig Baxter, Pant Hyfryd, ar ennill gradd mewn Coedwigaeth ym Mhrifysgol Bangor.

Arholiadau TGAU: Pob lwc i'r dyfodol i Dylan Wyn Thomas, Rowan Thomas, a Delyth Morris sydd bellach wedi cwblhau eu arholiadau TGAU yr haf yma.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn 1/6/93 — £35: C. Roberts, Newton Hall, Llanberis (40); £25: B. Roberts, Stryd Goodman, Llanberis (84); £15: M. Williams, Penterfyn, Llanrug (75); £10: E. Owen, 7 Beddgwenan, Llandwrog (134); £5: G. Roberts, Ffordd Capel Coch, Llanberis (158).

Aduniad hapus: Achlysur arbennig oedd yr aduniad a gynhaliwyd yng Ngwesty Erw Fair ar nos Iau, 10 Mehefin, pryd y daeth llu o ffrindiau ynghyd i groesawu Gwyneth Wilks (Gwyneth Ef) yn ôl i Lanbêr.

Roedd yn ôl yn ei chynefin wedi iddi dreulio dros ugain mlynedd yn Ne Affrica ac yn cael croeso mawr gan ei chwiorydd Dora a Mair.

Braf oedd cael gweld hen wynebau a sgwrsio gan ddwyn i gof hen atgofion.

Braint oedd cael cwmni Alice Williams, Caernarfon (Llywydd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru), ar y noson. Hi oedd sylfaenydd dawnsio gwerin yn yr Aelwyd yma yn Llanberis yn ystod y pumdegau, a balch oedd o adrodd am ddatblygiad a llwyddiant y parti ar hyd y blynyddoedd. Bu'n fuddugol ddwywaith o dan bump ar hugain oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Roedd deg o'r aelodau gwreiddiol yn bresennol yn yr aduniad. Talwyd teyrnged i'r ddiweddar Miss Clarice Williams, Summer Hill, a fu mor ffyddlon i gymaint o bartïon dawnsio a chanu yn y pentref.

Dymunwn wyliau hapus i Gwyneth, tywydd gwell! a siwrna ddiogel yn ôl adref at ei theulu yn Capetown.

Diolch i Beryl Lewis (Morris) am drefnu'r noson — cafwyd noson i'w chofio a byddwn yn edrych ymlaen at weld Gwyneth eto yn ein plith fel y cawn noson arall i'w chofio fel y noson hon.

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Trwy garedigrwydd ein Cadeirydd, Mrs Ann Parry-Jones, cynhaliwyd y cyfarfod misol yn ei chartref ym Mherthi, Llanrug, ar nos Iau, Mehefin 3ydd. Ar ôl mwynhau swper blasus, cafwyd arwerthiant o'r cacennau a oedd wedi eu gwneud gan yr aelodau. Gwnaed elw o dros £100 oddi wrth y fenter a fydd yn y man yn cael ei drosglwyddo i'r Feddygfa leol. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Cadeirydd ac i bwb a gyfrannodd mor hael i wneud y noson yn llwyddiant.

Cymorth Cristnogol: Cyfanswm y casgliad o dŷ i dŷ o amgylch y pentref yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol oedd £600. Y mae Cyngor Eglwysi'r pentref yn awyddus i ddiolch i aelodau eglwysi'r pentref am gasglu a hefyd i'r pentrefwyr am eu haelioni.

Yr Urdd: Mwynhaodd plant cangen y pentref o'r Urdd barbeciw ar noson olaf y tymor. Cafwyd noson braf a pharatowyd gemau ar gyfer y plant ar gae'r Ddôl. Yn ddiweddar bu'r plant yn cystadlu yn y mabolgampau a drefnwyd ar gyfer canghenau'r cylch. Cafwyd Helfa Drysor yn ddiweddar hefyd. Diolch i arweinwyr y gangen am eu holl waith yn ystod y flwyddyn; diolch am eu brwdfrydedd a'u gofal am y plant.

Ysgol Sul Capel Coch: Aeth 13 o blant yr Ysgol Sul i aros yng Ngholeg y Bala dros ddwy noson yn ddiweddar. Roedd 28 o blant o wahanol ardaloedd wedi dod i'r Cwrs. Thema'r cwrs oedd yr Ysbryd Glân, a chafodd y plant glywed hanes y Sulgwyn pan anfonodd Duw ei Ysbryd Glân ar y disgyblion. Roedd y tywydd yn y Bala yn ardderchog, a chafodd y plant ganwio ar Lyn Tegid. Buont hefyd yn y Ganolfan Bowlio Deg yng Ngwersyll yr Urdd yng Nglan Llyn. Bu'r plant yn cymryd rhan mewn oedfa yng Nghapel Tegid ar y bore Sul.

Aeth trip yr Ysgol Sul i Butlins, Pwllheli, ar ddydd Sadwrn, Mehefin 26.

Yr Ysgol Feithrin: Cynhaliodd yr Ysgol Feithrin fore coffi yn festri Capel Coch ddydd Iau, Mehefin 17, a daeth cynulleidfa dda yno i glywed y plant yn canu llond trol o ganeuon. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain, a dymunwyd yn dda i'r plant a fydd yn symud o'r Ysgol Feithrin i'r ysgol fawr ym mis Medi. Diolch i Anti Catherine ac Anti Jan am eu holl waith efo'r plant.

Llongyfarchiadau i Mari Wyn, 6 Rhes Victoria, am ennill dau dlws a'r unawd dan 12 oed a cherdd dant dan 12 oed yn Eisteddfod Clynnog yn ddiweddar.

Coffi yn y Bistro: Cynhaliwyd bore coffi yn y Bistro ym mis Mai pryd y casglwyd £112.50 tuag at Ward Haematoleg yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Record i redwyr: Ni rwystrodd y storm, a'r gwynt a'r glaw ar fore Sul, 30 Mai, redwyr o'r pentref rhag rhedeg yn y ras 10k yng Nghaernarfon.

Parti Aelwyd Llanberis, 1949, ym Mhontarddulais. Roedd nifer ohonynt yn yr aduniad diweddar.

Plant yr Ysgol Feithrin fydd yn cychwyn yn Ysgol Dolbadarn ym Medi.

Torrwyd y record i fechgyn dan 15 gan y rhedwr Alun Vaughan.

Yn ras y genethod dan 11 oed daeth Elin Harding yn ail (oddi mewn i'r hen record), a Sarah Jones oedd yn drydydd. Daeth Rachel Jones yn drydydd yn y ras i enethod o dan 13 oed.

Yn y ras bechgyn dan 11 oed daeth Gareth Jones yn ail ac Alwyn Jones yn chweched. Da iawn chi i gyd.

Diolchiadau

Dymuna Sybil Evans, Michael, Keith ac Andrew, gwraig a meibion y diweddar Evan Evans, 2 Stryd Ianci, Llanberis, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion am y llythyrau a'r cardiau, y cydymdeimlad a'r caredigrwydd, ar ôl y brofedigaeth o golli gŵr a thad hoffus. Diolchir yn arbennig i staff Ward Aran Ysbyty Gwynedd a Bryn Seiont ac i'r llawfeddygon, nyrsus a meddygon Canolfan Iechyd Llanberis. Dymunwn ddiolch i'r gweinidog, y Parchg Gwynfor Williams ac i Mr Myrddin Pritchard am yr holl drefniadau.

Dymuna Megan Hughes, 9 Rhes y Faenol, a theulu y ddiweddar Edith Jones, ddatgan eu diolchgarwch i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Gartref Plas Pengwaith. Diolch yn arbennig i staff Plas Pengwaith, y nyrsus a'r meddygon am eu gofal diflino ac i Mr Myrddin Pritchard a Gwynfor am eu trefniadau trylwyr.

Dymuna Mrs Netta Jones, Hirfron, Stryd Fawr, Llanberis, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna teulu y diweddar Hugh Morris Roberts, Bod Emrys, Stryd-y-ffynnon, ddatgan eu diolch i staff Ward Hebog Ysbyty Gwynedd, a staff Ward Peris, Ysbyty Eryri, am eu gofal tyner. Diolch hefyd i staff y Feddgyfa, Llanberis, am eu cymorth. Mawr ddiolch yn ogystal i'r llu cyfeillion a chymdogion am y cardiau, llythyrau a'r galwadau ffôn yn datgan cydymdeimlad, ac am eu cyfraniadau o £460 tuag at y Feddygfa yn Llanberis. Diolch hefyd i'r Parchg John Pritchard ac i Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau. Diolch o galon i bawb.

Bu farw Mr Benjamin (Ben Rodrick) Jones, 71 Maes Padarn, ar Fehefin 5ed. Yr oedd yn 89 mlwydd oed. Treuliodd flynyddoedd yn yrrwr gyda Chwmni Rheilffordd y Wyddfa. Cydymdeimlir â'i blant, Mair ac Idwal, yn eu profedigeth.

GWERTHIANT CIST CERBYD

DYDD SADWRN (Ras yr Wyddfa) GORFFENNAF 24ain yn CAE DDÔL am 10.00 o'r gloch

Cerbyd ar y diwrnod: £4

Cysylltwch â Jan ar 871348

Yr elw tuag at Ysgol Feithrin Llanberis

Dr Dan Hughes yn agor y Feddygfa newydd yn Llanberis.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Llongyfarchiadau i Liz ac Iorwerth Williams, 16 Tan y Buarth, ar enedigaeth merch fach, Mared.

Dymuna Liz a Iorwerth Williams ddiolch i'r llu cyfeillion a theulu am eu dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth Mared.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Elwyn H. Parry, 11 Tan y Buarth ar achlysur ei briodas â Llinos Jones, Tyddyn Rhuddallt, Llanrug. Pob lwc a bendith i'r ddau.

Dymuna Elwyn a Llinos ddiolch o galon i ffrindiau, cymdogion a theulu am eu dymuniadau da, anrhegion a chardian ar achlysur eu priodas.

Llwyddiant yn y Gymanfa: Yn rhifyn Mehefin o'r Eco fe adawyd enw Jennifer Roberts, Bro Eglwys, allan o restr y rhai a wobrwywyd yn y Gymanfa a gynhaliwyd ym Mrynrefail. Ymddiheurwn i Jennifer am ein llongyfarchiadau hwyr.

Yr Urdd: Daeth llwyddiant i'r gangen leol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe, gyda'r grŵp llefaru a'r parti canu yn ennill y drydedd wobr. Cafwyd amser da gan bawb.

Yn dilyn Mabolgampau'r Sir a gynhaliwyd yn ddiweddar fe ddaeth llwyddiant eto i'r gangen gyda'r canlynol yn cael eu lleoli — naid hir dan 10 oed: 3, Owain Siôn Williams; rhedeg dan 12: 1, Ellen Robinson; rhedeg 200m dan 15: 1, Rebecca Hall; naid hir dan 13: 1, Bethan Fôn Jones; ras gyfnewid genethod: 1, aelodau'r tîm — Bethan Fôn Jones, Llinos Mair Williams, Rebecca Hall ac Ellen Robinson. Mae'r gangen yn ddiolchgar iawn i Mary Lloyd Jones am ofalu am y trefniadau.



Y criw llwyddiannus ym Mabolgampau'r Urdd ym Mhorthmadog — Bethan, Owain, Llinos, Elen a Rebecca.

Diolch: Dymuna Mrs Gracie Williams, 36 Bro Rhos, ddiolch i'r plant, y teulu a'i holl gymdogion am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniod yn ddiweddar ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

Merched y Wawr: I ddiweddu'r tymor aeth yr aelodau ar daith ddirgel gan ymweld â Melin Llynnon, Llanddeusant. Fe dywyswyd yr aelodau o gwmpas y felin gan y melinydd ac eglurodd sut roedd y felin yn gweithio. Diweddwyd y noson yn Cegin Llynnon a chafwyd pryd o fwyd blasus iawn.

Llongyfarchodd y llywydd bartïon canu a adrodd dan 15 oed, Glenys Griffiths, Deilwen Hughes a Non, merch Alys Jones ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Dymunwyd yn dda i Elwyn, mab Nora Parry, a Llinos ar eu priodas. Diolchodd y llywydd i'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a dymunwyd yn dda i'r pwyllgor newydd. Enillwyr y raffl oedd Gwyneth Hughes, Eirlys Williams a Nan Rowlands.

Bydd gan y gangen stondin 'Cynnyrch Cartref' ar ddydd Sadwrn y Carnifal a bydd Edwina Morris, Mair Read ac Eirlys Williams yn fodlon derbyn unrhyw gyfraniad yn ystod yr wythnos flaenorol ac ar y diwrnod.

Cymorth Cristnogol: Casglwyd cyfanswm o £358.53 yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb am eu haelioni.

Enillwyr Clwb 200 Neuadd Goffa Bethel am fis Mai — £20: Dylan Owen, 20 Cremlyn; £10: Mair Jones, 15 Stad Eryri; £5: Jean Hughes, Nefyn; Ivy Wright, 2 Tan y Buarth; Iris Roberts, Fferm Cefn Cynrig; Emyr Price, 5 Tan y Ffordd; Gwilym Jones, Y Ddôl Wen; Angharad Price, 5 Tan y Ffordd; Joan Ginsberg, 2 Celtic House; Bert Japheth, Stryd Garnon, Caernarfon.

Clwb 100 Ysgol Gynradd Bethel: Enillwyr mis Mehefin oedd — £20: Ella Roberts, 10 Y Rhos; £15: Trevor Jones, Llain y Grug, Mynydd Llandegai; £10: Gwilym Williams, 20 Y Ddôl; £5: Joan Ginsberg, 2 Celtic House; £3: Mrs Sturrock, Bryn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Bydd gwobrau am fis Gorffennaf yn cael eu tynnu ar ddydd Llun, Gorffennaf 5ed.

Newyddion o Ysgol Gynradd Bethel: Bu plant blwyddyn 6 yn cael gwersi beicio gan Mr Dafydd Edwards yn ystod y mis. Ar ddiwedd y cyfnod rhaid iddynt gael prawf i brofi eu gallu i drin beic ar y ffordd fawr a'u gwybodaeth o Reolau'r Ffordd. Pob lwc iddynt i gyd.

Yn ystod y mis yma fe fu plant blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Brynrefail bob pnawn dydd Mawrth fel rhan o gynllun chwaraeon yr Ysgol. Mae hyn yn gyfle da iddynt ddod i adnabod plant y dalgylch a gwneud ffrindiau newydd yn barod erbyn mis Medi.

Nos Wener, Mehefin 18, cynhaliwyd Barbeciw llwyddiannus ar dir fferm y Bryn. Roedd Mr Huw Pritchard yno i ddiddori a staff yr ysgol ac aelodau cymdeithas rhieni/athrawon yn brysur yn gweini ar y rhieni a'r plant. Gwnaed elw o £279. Diolch yn fawr i Mr a Mrs Sturrock am fod mor barod i ganiatáu i ni gynnal y noson yn y Bryn.

Nos Lun, Gorffennaf 5, a nos Lun, Gorffennaf 12, bydd rhieni'r plant yn ymweld â'r ysgol i drafod yr adroddiadau hefo'r athrawon.

Bore dydd Mercher, Gorffennaf 14, bydd cyfarfod arbennig yn yr ysgol i ddymuno'n dda i blant blwyddyn 6 cyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Bydd gwahoddiad i rieni'r plant a llywodraethwyr yr ysgol i'r cyfarfod.

CLWB PÊL-DROED BETHEL o dan 10 oed

Carfan lwyddiannus o dan 10 oed Bethel yn eu noson wobrwyo yn Nhŷ Newydd, Llandegai.

Mae pêl-droed ym mhentref Bethel yn mynd o nerth i nerth. Ennill 7, colli 3 ac un yn gyfartal oedd canlyniadau'r tîm ieuenctid o dan 10 oed. Roedd dwy o'r gemau a enillwyd yn erbyn timau cryf o Hoylake a Manchester City. Yn ogystal fe lwyddwyd i gyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth 8-bob-ochr o dan 9 oed a than 11 oed ym Mae Trearddur; enillwyd cystadleuaeth 8-bob-ochr dan 10 oed Cynghrair Gwyrfai ar yr Oval ac fe enillwyd cystadleuaeth Tlws Eco'r Wyddfa dan 11 oed.

Rhoddwyd gwobrau i aelodau'r garfan mewn noson lwyddiannus a drefnwyd yng Nghlwb Criced Bangor. Roedd yn amlwg bod y lleoliad yn un a apeliai i'r oedolion a'r plant!

Cyflwynwyd Tlws Siân ac Arfon Cae Rhos am chwaraewr y flwyddyn i Mark Williams. Roedd cyfraniad Mark i'r tîm eleni wedi chwarae rhan bwysig i sicrhau y llwyddiant arbennig a gafwyd yn y gemau ac mae ei sgiliau eisoes wedi denu sylw prif dimau Lloegr.

Nid oes llwyddiant os nad yw'r tîm yn sgorio ac fe sicrhaodd Owain Siôn dlws prif sgoriwr y flwyddyn gyda 20 o goliau. Cyflwynwyd y Tlws gan Janet ac Alwyn, Y Ddôl.

Mae dyfodol disglair hefyd i Ianto Jones — fel pob gôlgeidwad da mae Ianto yn y lle iawn ar yr amser iawn.

Alwyn a Dewi, hyfforddwyr y tîm, yn cyflwyno crys-T i Owain Ginsberg am fod yn 'chwaraewr y gêm' yn erbyn Manchester City.

Fe chwaraeodd Ianto ran allweddol yn yr Oval ac y erbyn tîm Hoylake. Cyflwynwyd tlws chwaraewr addawol y flwyddyn i Ianto gan Dewi a Nan, Y Ddôl.

Derbyniodd Owain Ginsberg grys a gyflwynwyd gan dîm ieuenctid Manchester City i chwaraewr gorau'r gêm.

Dymuna'r Clwb ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y tîm ac yn arbennig i Alwyn am hyfforddi'r criw. Dymunwn pob llwyddiant iddynt y tymor nesaf.

Y tlws yn cyflwyno'r tlysau — o'r chwith: Ianto Jones (Tlws Nan a Dewi Rowlands) am y chwaraewr mwyaf addawol; Mark Williams (Tlws Arfon a Siân Hughes) am chwaraewr y flwyddyn; ac Owain Siôn (Tlws Janet ac Alwyn Jones) am brif-sgoriwr.

Cafwyd y llun yma o Stryd Ganol gan Ann a John Ellis, 25 Llys Gwyn, Caernarfon. Pa bryd y tynnwyd y llun tybed? A oes yna rai sydd yn y llun yn byw ym Methel heddiw? Gadewch i ni wybod.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Clwb Pobl y Cwm: Dydd Iau, Mai 27, Mrs Mair Williams fu'n ein diddanu â chasetiau y tro hwn, a chafwyd pnawn difyr a hwyliog gyda'i dewis, a diolchodd y Llywydd yn gynnes iddi. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs E. M. Jones a Mrs Glenys Pritchard ac fe enillwyd y raffl gan Mrs Eluned Hughes.

Ar Mehefin 10fed cafwyd egwyl o Bingo y tro hwn, gyda Mrs Enid Price yn galw, a phawb wedi mwynhau y newid bach ysgafn. Gofalwyr y baned oedd Mrs R. Roberts a Mrs M. Williams, a Miss E. Hughes oedd enillydd y raffl.

Llongyfarchiadau i Barry, Derlwyn, Craig-y-don, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed.

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i deulu Mrs Sheila Terry, merch y diweddar Mr Richard Roberts, 1 Bryn Gro, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Fehefin 6, yn 61 oed.

Trip: Bydd y trip yn mynd i Butlins, Pwllheli, ar Gorffennaf 10fed. Mynediad yn £3.50 i blant ac oedolion a £2.00 i bensiynwyr. Bydd tâl y bws yn ychwanegol. Enwau i **Sioned Jones 872085** neu **Margaret Williams 870730.**

Eglwys St. Gabriel: Llongyfarchiadau i Keith Williams, Bryn; Carys Jones, Glan-y-don ac Arwyn a Llion Jones, Isfryn, ar ennill tystysgrif am eu gwaith yn yr Ŵyl Gorawl a gynhaliwyd yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun, yn ddiweddar.

Adran Gymuned: Bydd pwyllgor Adran Gymuned yr Ysgol yn cyfarfod ar nos Fawrth, Gorffennaf 6, am 7 o'r gloch, i drefnu pnawn o gemau ar ddydd Sadwrn, Medi 4. Croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb.

YSGOL CWM-Y-GLO

Ers y rhifyn diwethaf bu Louise Thornton o Ysgol Brynrefail yma am wythnos o brofiad gwaith fel rhan o'i chwrs arlwyaeth. Cafodd Louise gyfle i gydweithio â Mrs Orritt y gogyddes yn y gefin. Yn anffodus, daeth cyfnod ymweliadau Miss Fiona Owen o Goleg Pencraig i ben gyda ni. Rydym yn hynod ddiolchgar iddi hi am ei gwasanaeth ac am fod mor annwyl a gofalus o'r plant bach yn ei gofal. Dymunwn y gorau iddi am weddill ei chwrs yn y coleg.

Ni fydd Donna Roberts chwaith yn dod atom ar ddydd Gwener am weddill y tymor. Dymunwn yn dda iddi yn ei arholiadau a diolch o galon iddi am ei gwasanaeth hithau yn ystod y flwyddyn. Bydd croeso mawr iddi yn ôl ym mis Medi.

Cynhaliwyd y Gala nofio i Ysgolion o dan 100 o blant yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon ddiwedd mis Mai. Llongyfarchwn dîm yr ysgol am y llwyddiant ddaeth i'w ran, a diolch i bob aelod a wnaeth ymdrech arbennig y diwrnod hwnnw.

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

NEUADD GOFFA BETHEL

Wythnos Gweithgareddau Gorffennaf 12 - 17, 1993

Nos Lun, Gorffennaf 12, am 5.30 p.m.
Pêl-droed 5-bob-ochr yn y Cae Chwarae

Nos Fawrth, Gorffennaf 13, am 6.00 p.m.
Pêl-rwyd ar fuarth yr Ysgol Gynradd.
(a) Plant Ysgol Gynradd; (b) dan 16 oed; (c) oedolion.

Nos Fercher, Gorffennaf 14, am 7.15 p.m.
Bingo a stondin gacennau yn y Neuadd Goffa.

Nos Iau, Gorffennaf 15
Chwaraeon yn y Cae Chwarae.

Nos Wener, Gorffennaf 16
am 5.30 p.m.
Rowndiau terfynol 5-bob-ochr yn y Cae Chwarae
am 7.00 p.m.
Gêm pêl-droed oedolion ar y cae top (Cefn Capel Cysegr).

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 17, am 2 p.m.
Y CARNIFAL yn y Cae Chwarae
Gwisg Ffansi (hunan ddewisiad):
dan 3 oed; 5, 8, 11, 15, 25, dros 25, grŵp
Addurno Beic neu Pram — Addurno Het
Pen-gliniau esgyrnog

Beirniaid: Mr a Mrs David Williams, Llanddwyn, Bethel.

Bydd stondinau lluniaeth, diod, cŵn poeth, hufen iâ, oren a llawer mwy yn y gweithgareddau bob nos.

Ar nos Wener, Mai 28ain, aeth nifer o fechgyn o'r ysgol i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Tlws Eco'r Wyddfa. Yn anffodus, roeddem ddau o fechgyn yn fyr i wneud tîm, ac ofnid na ellid chwarae. Ond nid dyna fu. Diolch arbennig iawn i Gwion a Rhodri o Ysgol Llanrug. Roeddent yn fwy na bodlon llenwi'r bwlch, ac fe gafodd hogiau Cwm gêm wedi'r cyfan. Cyflwynwyd Tlws 'Chwarae Teg' iddynt am eu hymdrech.

Aeth gwobr Clwb yr Ysgol am fis Mai i Mrs Diana Pritchard, Stryd Ceunant, Llanberis, a'r ail wobr i Mrs Annie Hughes, Bryn, Cwm-y-glo.

Am bedwar pnawn Mawrth yn ystod y mis hwn mae nifer o blant yr Adran Iau, yn ogystal â phlant ysgolion cynradd eraill y dalgylch, yn ymuno â'r Cynllun Chwaraeon yn Ysgol Brynrefail. Diolch i Mr Richard Parry am drefnu'r gweithgareddau hyn.

Cafodd plant Blwyddyn 6 eu hail ymweliad undydd ag Ysgol Brynrefail ar Fehefin 9fed. Roeddent wedi mwynhau eu hunain ac maent yn edrych ymlaen i ddechrau yno ym mis Medi. Felly carem ddymuno yn dda iawn i Luke, Andrew, Robert, Lehanne, Twm, Sarah, Sara a Hugh fydd yn ein gadael ddiwedd y tymor. Diolch am eich cyfraniad i'r ysgol hon a phob llwyddiant i chwi yn eich gyrfa uwchradd.

Ym Magolgampau Cylch yr Urdd daeth Karrah Williams yn drydydd am daflu pêl i enethod o dan 10 oed. Cawsom ddau gyfarfod yn ystod y mis. Daeth Mr John Owen, Penrhyn Bach, Llanrug, atom i sôn am y gwaith arbennig a wneir gyda chŵn tywys i'r deillion. Gyda storm enbyd o fellt a tharannau yn rhwygo'r awyr a'r cyflenwad trydan fe gawsom noson ddifyr iawn yn ei gwmni. Cyflwynodd Karrah rodd iddo tuag at yr achos teilwng hwn. Diolch i Anti Sioned ac Anti Margaret am wneud y trefniadau.

Yna i gloi'r gweithgareddau am y flwyddyn trefnwyd noson pur wahanol ar gae chwarae y pentref. Mrs Callahan a Mr Barnicott oedd yng ngofal y noson a daetha dau geffyl i'r cae. Cafodd pob aelod reid o amgylch y cae ac roeddent wrth eu bodd. Roedd hon yn noson i'w chofio. Diolch i'r ddwy fam am ei threfnu.

Mae dau weithgaredd wedi eu trefnu gan Gymdeithas Rhieni / Athrawon cyn diwedd y tymor. Ar nos Wener, Gorffennaf 2il, bydd Helfa Drysor o gwmpas y pentref. Cychwynnir o fuarth yr Ysgol am 6 o'r gloch a bydd paned a bisged yn y Ganolfan ar ôl gorffen. Croeso cynnes i bawb ymuno.

Yna, ar 15fed o Orffennaf, bwriedir mynd a char i lawr i fuarth Ysgol Gynradd Llanrug lle cynhelir Sêl Cist Car. Os oes gennych unrhyw nwyddau y tybiwch fyddai'n gwerthu yno, gallwch ddod a hwy i'r Ysgol cyn y diwrnod. Cyfle ardderchog i bawb gael clirio!

Ar y 6ed o Orffennaf bydd pump o blant bach arbennig iawn yn treulio bore yn yr ysgol. Maent am gael mynd at blant yn nosbarth Mrs Williams ac yna aros i ginio. A'r rheswm am hyn? Mi fyddant yn cychwyn yn yr ysgol yn llawn amser ym mis Medi ac fe rydd hyn rhyw flas bach ar fywyd yr Ysgol iddynt.

Ar ran plant a staff yr Ysgol, diolch o galon i chwi fel rhieni, llywodraethwyr, ffrindiau a phentrefwyr am eich cefnogaeth ardderchog a pharod i ni yn holl weithgareddau'r Ysgol yn ystod y flwyddyn.

Llongyfarchiadau i Arwyn Morris Williams, mab Idris ac Audrey Williams, Clegir, Cricieth, a ŵyr i Mrs Nell Williams, Pantafon, Cwm-y-glo, ar ennill gradd B.Sc. gydag Anrhydedd yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Llongyfarchiadau:
— i Glenys a Stephen Jones, 8 Bro Elidir ar enedigaeth merch fach, Haf Bryn Jones, ar y 1af o Fehefin. Wyres gyntaf i Mr a Mrs Llew Jones, 4 Bro Elidir.
— i Ruth a Glyn Morris, Bwthyn, Foel Gron, ar enedigaeth eu mab Einion Glyn, ar Fai 29ain.
— i Kevin John, 4 Bro Elidir, am arwain tîm pêl-droed Deiniolen i lwyddiant Cwpan Alves.

Diolchiadau:
Dymuna Mrs Margaret Jones, 5 Bro Elidir, ddiolch am y caredigrwydd mawr a ddangoswyd iddi gan bawb wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Mae'n dda gallu adrodd ei bod gartref o'r ysbyty erbyn hyn.

Dymuna Glyn a Ruth Morris, Bwthyn, Foel Gron, ddiolch am y llu cardiau a rhoddion a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab Einion Glyn.

Gwellhad buan: Wrth i'r Eco fynd i'r wasg deallwn bod Mr Derek Williams, Bron Eilian, yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan iddo ef ac i bawb arall sydd ddim yn mwynhau iechyd rhy dda ar hyn o bryd.

Hwyl Haf '91: Gobeithio eich bod i gyd yn cofio am yr Hwyl Haf a gynhelir yn yr Allt Ddu ar brynhawn dydd Sadwrn, 3ydd o Orffennaf o 1.30 ymlaen. Hyderwn y cawn brynhawn i'w gofio. Cofiwch am y gystadleuaeth gwisg ffansi yn ogystal â llu o weithgareddau eraill fydd wedi eu trefnu ar eich cyfer. Fel arfer bydd y pris mynediad yn 50c i oedolion ac 20c i blant. Os y dymunwech gyfrannu cacen, llysiau, ac ati, ar gyfer eu gwerthu yn yr Hwyl Haf yna fe fydd y Ganolfan ar agor i'w derbyn ar nos Wener, Gorffennaf 2il rhwng 6 a 7 o'r gloch. Diolch yn fawr i chwi.

Cyflymdra: Rhag ofn nad ydych wedi sylwi, cofiwch bod cyflymdra gyrru trwy'r pentref yn awr wedi ei gyfyngu i dri deg milltir yr awr. Bellach nid oes arwydd tri deg milltir ar ben Gallt y Foel sydd yn golygu bod rhaid cadw at y cyflymdra yma o'r Allt Ddu i lawr i Ddeiniolen. Gobeithio y bydd modurwyr yn cymryd sylw o'r newid yma gan bod ambell un yn mynd fel 'cath i gythral' ar hyd y ffordd trwy'r pentref ar rai adegau.

Cludiant Cyhoeddus: Gan gymaint y pryder ynglŷn â phenderfyniad cwmni Crosville i ddiddymu eu gwasanaeth bysiau yn y bore o Ddinorwig fel y bu i gyfarfod cyhoeddus, a gynhaliwyd ddiwedd mis Mai, benderfynu dosbarthu deiseb o gwmpas y pentref. O ganlyniad fe gasglwyd 80 o enwau ac mae'r diolch i Mrs Alice Thomas, Mrs M. Pleming a Mrs Karen Jones am fynd o amgylch y pentref gyda'r ddeiseb. Gobeithia'r Cynghorydd Glyn Tomos a'r Cynghorydd Pat Larsen drefnu cyfarfod gyda rheolwyr cwmni Crosville i drafod y sefyllfa ac fe fawr obeithir cael adfer peth o'r gwasanaeth gwreiddiol.

Y Ganolfan: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Ganolfan ar nos Fercher, Mehefin 2il, o dan lywyddiaeth Mr Derek Jones. Diolchwyd i Miss Marian Jones am baratoi cyfrifol ariannol y Ganolfan ac i Mr Rennell Williams am baratoi cyfrifon y Clwb Snwcer. Derbyniwyd y cyfrifon i gyd fel rhai cywir. Etholwyd Mrs Karen Jones yn Llywydd am y flwyddyn ac fe ailetholwyd gweddill y swyddogion. Diolchwyd i bawb am eu gwaith. Adroddwyd bod yna dipyn o waith atgyweirio wedi ei wneud ar y Ganolfan yn ystod y flwyddyn a bod gennym bellach adeilad y gallwn ymfalchïo ynddo.

Penderfynwyd anfon llythyr at Adran Priffyrdd y Cyngor Sir yn gofyn am y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â lledu'r ffordd pen Gallt y Foel. Mynegwyd pryder hefyd am y broblem dŵr sydd yn dal i fod ar ben Gallt y Foel ac fe gytunwyd i anfon gwahoddiad i swyddo'r o'r Cyngor Sir i ddod i'r cyfarfod nesaf o'r pwyllgor i adrodd am y sefyllfa.

Trafodwyd ynglŷn â thai i'r henoed yn Ninorwig ac roedd y Cynghorydd Jacob James yn awyddus i wybod barn y pentrefwyr, ond fe benderfynwyd gohirio'r drafodaeth tan y cyfarfod nesaf o bwyllgor y Ganolfan. Yn y cyfamser os oes gennych farn ar y mater cysylltwch â'r Cynghorydd Jacob James gan y buasai yn falch o glywed gennych.

Teimlwyd bod angen denu mwy o bobl ifanc i weithredu ar y pwyllgor gan mai hwy yw dyfodol y pentref ac fe obeithir estyn gwahoddiad iddynt i'r cyfarfod nesaf.

Castell Neidio: Os dymunwch logi castell neidio ar gyfer eich gweithgareddau haf yna cysylltwch â Rita Wood, Fron Heulog. Mae'r castell yn atyniad mawr gan y plant yn yr Hwyl Haf bob blwyddyn ac fe ddylai fod yna dipyn o alw am logi castell o'r fath.

Eglwys St. Mair: Cynhaliwyd Cyfarfod Pregethu llwyddiannus iawn dan arweiniad y pregethwr gwadd, y Parchg Griffith Jones, Caplan Ysbyty Gwynedd, ar brynhawn Sul, Mehefin 20fed. Diolch i Mrs Gwen Griffith am ei gwaith wrth yr organ ac i'r cyfeillion o Gapel Sardis a Chapel Dinorwig am eu cefnogaeth arferol. Mae'n gwneud tipyn o wahaniaeth i'r addoliad pan bo criw da o bobl yn dod ynghyd. Diolch i Mr Robin Evans am dorri'r gwaith o gwmpas yr Eglwys — mae ein dyled yn fawr iddo.

Yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig, a gynhaliwyd yn Eglwys Crist Llandinorwig ar y 1af o Fehefin, cytunwyd i anfon llythyr i'r esgob gan nodi y pryder ynglŷn â chyflwr yr adeilad gan ofyn am arweiniad ynglŷn â'r mater.

Dyma drefnwyr blodau'r allor am fis Gorffennaf — 4/11: Mrs Shirley Humphreis; 18/25: Mrs E. Lynes. Diolch ymlaen llaw iddynt.

Dosbarth Addysg y Gweithwyr (W.E.A.): Eleni fydd y degfed tro i'r dosbarth nos, dan nawdd Cymdeithas y Gweithwyr, gael ei gynnal yn Ninorwig ac fe fydd cyfres arall o bum darlith yn dechrau ar nos Fawrth, Medi 7fed, am 7 o'r gloch yn y Ganolfan. Mr Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug, fydd yn darlithio ar Hanes Dinorwig eto'r tymor hwn. Estynnir croeso cynnes i bawb sy'n awyddus i ymuno â'r dosbarth. Teg yw nodi fod oddeutu hanner yr aelodau presennol wedi ymaelodi ers y dechrau ac mae llawer o ddiolch iddynt am eu cefnogaeth a'u ffyddlondeb i'r dosbarthiadau dros y deng mlynedd diwethaf.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Gwellhad buan: Dyna a ddymunwn i Mr Gwilym R. Hughes, Oerddwr, ar ôl iddo dderbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ac sydd ar hyn o bryd mewn cartref nyrsio yn Llanfairfechan.

Llongyfarchiadau

Derbyniodd Delyth Tomos, Tan-y-cae, radd mewn Ffiseg a Mathemateg gan y Brifysgol Agored yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, ar 29ain o Fai. Llongyfarchiadau a'r dymuniadau gorau iddi yn ei hastudiaethau pellach.

Llongyfarchwn y Cynghorydd Emyr Tomos, Tan-y-cae, ar ei benodiad yn is-gadeirydd i'r Adran lechyd y Cyngor Sir.

Llongyfarchiadau i Manon Llwyd Evans, Carwyn, Bryngwyn, ar raddio fel meddyg yng Ngholeg Meddygol Cymru, Caerdydd.

Llongyfarchwn hefyd Amlyn Llwyd Evans, Crwyn, ar ennill gradd B.A. (Anrhydedd) mewn Ffarmoacoleg yng Ngholeg Churchill, Caergrawnt.

Bydd Manon yn dechrau ar ei gyrfa fel meddyg yn Ysbyty Penybont-ar-ogwr ym mis Awst ac Amlyn yn parhau â'i gwrs meddygol yn Ysbyty Addenbrookes, Caergrawnt.

CYHOEDDI LLYFR HUW

Yn ystod mis Mehefin eleni cyhoeddwyd llyfr gan frodor o Lanrug, Huw Humphreys. Ganwyd Huw yn Cadnant, 4 Tai Tan-y-coed, yn fab i'r diweddar William John a Mary Humphreys, ac mae ei chwaer, Miss Megan Humphreys yn parhau i fyw yn y cartref. Yn Llanrwst mae Huw yn byw bellach.

Treuliodd y rhan fwyaf o'i ddyddiau gwaith yng nghyflogaeth cwmni Crosville fel mecanic ac mae ganddo lawer o straeon difyr i'w hadrodd am ddyddiau cynnar y bysus ar ffyrdd ein gwlad.

Cyfrannodd Huw hefyd erthyglau cyson i bapur bro *Y Pentan* ynglŷn â gofal am y car, sef 'Ym Myd y Moto' a cheir detholiad o'r ysgrifau hynny hefyd yn y gyfrol. Ond prif ddileit Huw ers blynyddoedd bellach yw clociau o bob math a llunio modelau bach — llawer ohonynt yn cael eu gweithio gan beiriannau trydan. Gall ddefnyddio stwff bob dydd y byddem ni yn ei ystyried yn 'llanast' i greu modelau cywrain dros ben ac mae'n datgelu rhai o'i gyfrinachau yn y gyfrol ddiddorol hon sy'n gwerthu am £2.40 y copi.

CLWB ERYRI

Trefnwyd ymweliad â Phorthmadog, Blaenau Ffestiniog a Betws-y-coed i'r Clwb eleni ar gyfer y wibdaith flynyddol ar Sadwrn, 19 Mehefin. Mwynhawyd y profiad o deithio ar y trên bach o Borthmadog i'r Blaenau a'r ymseliadau'n dilyn â Chwarel y Llechwedd a'r Amgueddfa Foduron ym Metws-y-coed. Coronwyd y noson â chinio yng Ngwesty'r Gwydyr.

Penderfynwyd yn unfrydol ddyrchafu Mr Ieuan Ellis Jones, Llanberis (Trysorydd y Clwb) yn aelod-er-anrhydedd fel cydnabyddiaeth o'i waith a'i gefnogaeth brwdfrydig i'r Clwb am flynyddoedd meithion. Ymddeolodd y Dr Eurwyn Lloyd Evans, Llanrug, o'r swydd drom o Drefnydd Gwibdeithiau a diolchwyd iddo am ei ddiwydrwydd a'i ddyfeisgarwch tra bu'n ysgwyddo'r baich; penodwyd Mr John Roberts, Llanrug, yn olynydd iddo am 1994. Etholwyd Mr Eurwyn Jones, Llanberis, yn Llywydd y Clwb am 1993-4, gyda Mr Evan Parry, Ceunant, Llanrug, yn Is-lywydd.

Manteisir ar y cyfle i atgoffa'r aelodaeth fod y cyfarfodydd ar gyfer y tymor sy'n dod, i'w cynnal yng Ngwesty Erw Fair, Llanberis, gyda'r cyntaf ar nos Wener, 5 Tachwedd 1993, am 7.30 p.m.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

MODURDY
PLAS
BACH
CAEATHRO
Ffôn: C'fon 672072
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

CROESAIR GORFFENNAF



AR DRAWS

5. Eglwys Deiniolen (3,8)
7. Diolch am lymaid (4)
8. Yn ddi-oed (8)
9. Mynd yn llai ag yn llai (7)
11. Yr Indiad enwog (5)
13. Nain o'r de (5)
14. Yr hogia llenyddol (1,6)
16. Dyn tyner (6,2)
17. Ffrwythau'r iâr (4)
18. Camp bachgenaidd (5,6)

I LAWR

1. Ar y fainc (4)
2. Tictacs Mr Picton — go brin! (3,4)
3. Ffrind y frenhines (5)
4. Rhai babi'n nodweddiadol (5,3)
5. Gwaith heb ddisgwyl tâl (5,6)
6. Taid wedi colli'i gymar (5,2,4)
10. Gwylio'r ŵyn (8)
12. Pentref yn Llŷn (7)
15. Hysian a gwthio (5)
17. Ar ôl y digwyddiad (4)

CROESAIR MEHEFIN

Pedwar gydag un lythyren fechan yn anghywir y tro hwn ond teirgwaith hynny'n hollol gywir. O'r dwsin tynnwyd un o'r het, sef eiddo **Miss M. OWEN, 1 TAI DINAS, LLANGEFNI, MÔN.** Llongyfarchiadau i Miss Owen a mwynhewch y £5 o wobr a ddaw gyda hyn.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle, gan mai hwn fydd y pôs olaf fel petae, i ddiolch am gefnogaeth llu ohonoch i'r croesair tros y blynyddoedd. Deuthum i deimlo fy hun yn ffrind i nifer dda o bob cwr o ogledd Cymru sy'n anfon ataf yn gyson fisol. Diolch yn fawr i lorwerth a Jean Williams, Caernarfon, am eu geiriau caredig hefyd.

Anfoner atebion croesair Gorffennaf i sylw **IFOR G. EFANS, AFON GOCH, DEINIOLEN, i'w gyrraedd dim hwyrach na'r 27ain AWST 1993.** Ie, pan fyddwch gyda bodiau'ch traed yn y dŵr ar eich gwyliau, llenwch y sgwariau bach!

Pob hwyl tros yr haf!

Dyddiadur y Mis

GORFFENNAF 1993

2 Gwener. Deiniolen: Ffair Haf yr Ysgol Feithrin yn yr Iard am 6.30 o'r gloch.

3 Sadwrn. Dinorwig: Hwyl Haf yn yr Allt Ddu o 1.30 ymlaen. Stondinau, gwisg ffansi, rasus, etc.

4 Sul. Croes-y-waun, Waunfawr: Cymanfa Ganu Henaduriaeth Arfon am 6 o'r gloch. Arweinydd: Miss Joan Wyn Hughes, Dolgellau.

5-10 Llun-Sadwrn. Deiniolen: Wythnos Carnifal.

10 Sadwrn. Cwm-y-glo: Trip y pentref i Butlins.

12 Llun. Brynrefail: Sefydliad y Merched.

12-17 Llun-Sadwrn. Bethel: Wythnos Garnifal.

13 Mawrth. Penisarwaun: Cyfarfod Agored y Cylch Meithrin yn Ysgol Tanycoed am 8 o'r gloch.

14 Mercher. Deiniolen: Trip yr Ysgol Feithrin.

15 Iau. Llanrug: Sêl Cist Car yr Ysgol Gynradd.

16 Gwener. Brynrefail: Cymdeithas y Chwiorydd — Ffair Haf a Barbeciw ar Iard yr hen Ysgol Fach.

17 Sadwrn. Deiniolen: Trip Merched y Wawr i Erddig a Wrecsam.

RHODDION

£10: Mrs Eluned Porter, Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mrs E. Morris, Rhiwen, Deiniolen; Mrs H. J. Thomas, 6 Tai Marian; Clwb Ffermwyr Ieuainc, Caernarfon.

£5: Er cof am Mrs Eileen Thomas, 16 Rhydfadog, Deiniolen, gan John a'r plant; Mrs Megan Hughes, 9 Rhes y Faenol, Llanberis; Mrs Netta Jones, Hirfron, Stryd Fawr; Mrs Sybil Evans, 2 Stryd Ianci; Miss Jennie Jones, Bryn Tirion, Waunfawr; Mr a Mrs John E. Roberts, Glaslyn, Waunfawr; Teulu'r diweddar Hugh Morris Roberts, Bod Eryl, Stryd y Ffynnon, Llanberis.

£3: Ernest Jones, Hafan, 7 North Road, Deiniolen; Yvonne Jones, 11 Stryd Newydd a John Regan, Deiniolen.

£2: Mrs Bessie Owen, 52 Maes Padarn, Llanberis; Gwawr ac Euros Williams, Hafle, Deiniolen; Monica a Michael, Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Beti Roberts, 10 Bryntirion, Penisarwaun; Delyth Williams, Rallt Goch, Llanberis.

£1: Di-enw Waunfawr.

Am eich holl anghenion dodrefn
★ Dresel
★ Byrddau
★ Cadeiriau
★ Unedau Cegin
★ Dodrefn Ystall Wely
a.y.b.
oll wedi eu gwneud i ofynion yr unigolyn ...
J. W. ROBERTS
Ffôn: 675646
neu 676268

CABS LLANRUG

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos
C'fon 675951

AKA SECURITY SERVICE
Y Dderwen
Parc y Wern
BETHEL
Ffôn:(0286) 670608

Rhag i hwn alw, galwch chi ni rŵan
★ Larwms
★ Goleuadau
★ Cloeau
★ Pob math o waith diogelwch

ERIC JONES
PENISARWAUN
Ffôn: 872421
★ Prisiau rhesymol
★ Spreio tu mewn a thu allan
★ Estimates am ddim
PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

BARRY'S GLASS
• am Ffenestri a Drysau UPVC • Estimates am ddim
• Gwydr a gwydro o bob maint • Ffenestri Gwydr Dwbl
• Gwasanaeth bordio a gwydro 24 awr.



Y PRISIAU GORAU – GARANTÎD!
CAMELOT, PENISARWAUN
871144 (Dydd) 871774 (nos)

CHWARAEON

TLWS YR ECO 1993

Llanberis — enillwyr y Tlws i dimau dan 10 oed.

Cafwyd cystadleuaeth lwyddiannus iawn eto eleni. Yr unig siom oedd mai timau o Gwm-y-glo, Llanrug, Penisarwaun, Llanberis a Bethel yn unig a gafwyd. Rwy'n sicr fod modd cael timau o'r pentrefi eraill erbyn y flwyddyn nesaf.

Y mae maes pêl-droed Ysgol Gynradd Llanrug yn ddelfrydol o ran maint a lleoliad ar gyfer y gystadleuaeth ac mae'n diolch i Robin Williams, y prifathro, am ei gydweithrediad parod.

Am y tro cyntaf fe gafwyd dwy gystadleuaeth i blant blynyddoedd 3 a 4; ac hefyd i blant blynyddoedd 5 a 6. Clodforwn Ysgol Cwm-y-glo (yr ysgol leiaf o ran nifer o cryn dipyn) am gystadlu a hynny gyda gwên fawr ar eu hwynebau. Yn haeddianol iawn hwy a dderbyniodd Tlws Chwarae Teg y gystadleuaeth.

Mae defnydd tîm go dda ym Mhenisarwaun, ac yn wir roedd eu gôlgeidwad yn un o sêr y noson.

Yn y rownd derfynol i'r adran hŷn timau Llanrug 'A' a Bethel 'A' a wynebai eu gilydd. Bethel a orfu eleni — yn wahanol i'r tymor diweddaf — roedd goliau David Peters yn allweddol yn ystod y gystadleuaeth.

Cafwyd cystadleuaeth cryn dipyn agosach yn yr oedran ieuengaf gyda phedwar tîm yn chwarae yn erbyn eu gilydd. Tîm Llanberis 'A', gyda 5 pwynt, a orfu gyda Bethel yn ail gyda 4 pwynt. Dangoswyd bod cryn dipyn o dalent yn yr oedran yma ac mae'n amlwg fod yr hyfforddiant yng nghlybiau'r pentrefi yn dechrau blaguro a dwyn ffrwyth. Rwy'n siŵr fod yna gryn dipyn o edrych ymlaen at gystadleuaeth Tlws 1994.

Llawer o ddiolch i'r llu rhieni a ddaeth i gefnogi'r ieuenctid ac i Aled Roberts, Cyfarwyddwr Chwaraeon Arfon, am gyflwyno'r Tlysau. Ond yn bennaf mae'n diolch i'r plant, yn chwaraewyr a chefnogwyr, am eu hymddygiad penigamp yn ystod noson mor hir.

HOGIA NOBL!

Yn rhifyn mis Mehefin o'r Eco fe gafwyd llun o griw o hogia ardal Llanberis a ymddiddorai mewn codi pwysau. Derbyniais lun arall yn dangos yr aelodau a sefydlodd Clwb Codi Pwysau Llanberis. Diolch i Roy Roberts (sydd yn y llun) am fenthyg y llun. Mae'r rhestr enwau yn gyflawn ar wahân i'r person sy'n sefyll ar y chwith yn y cefn yn ei tracsiwt. Yn amlwg roedd yn berson allweddol yn natblygiad a meithrin yr aelodau yn y gamp. All rhywun ddatgelu ei enw, a pha flwyddyn?

Rhes gefn (o'r chwith); (?), John Roberts, Keith Roberts, Iorwerth Prydderch, Ronnie Roberts, Colin Hughes, Phil Owen a Gordon Ward.
Yn eistedd: Selwyn Roberts, Hefin Jones, Bryn Morris, Roy Roberts a Dafydd Owen.

MABOLGAMPAU

Cynhaliwyd y mabolgampau a drefnir gan yr Urdd yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog.

Ar ran adran bentref Bethel cafodd Owain Siôn y trydydd safle yn y naid hir dan 10 oed. O dan 12 oed llwyddodd Elen Robinson i gipio'r tlws am y ras wib dros 50m. Bethan Fôn Jones ddaeth a'r wobr gyntaf yn y naid hir o dan 13 oed ac fe ddaeth llwyddiant i Rebecca Hall hefyd yn y ras 200m. Coronwyd noson lwyddiannus i'r adran pan gipiwyd y brif wobr yn ras gyfenwid y merched o dan 13 oed. Yn y tîm roedd Bethan, Llinos Mair, Rebecca ac Elen.

Daeth cryn lwyddiant i adran Ysgol Llanrug hefyd. Yn yr oedran o dan 12 daeth gwobrau i Siân Green (2il yn y naid hir), ac Eryl Jordan (3ydd naid hir ac 2il am redeg). Yn yr un oedran daeth dwy wobr gyntaf i Wayne Pyrs Jones am daflu pêl ac i'r tîm ras gyfnewid (Siân Pritchard, Eryl Jordan, Nicola Jones a Siân Green).

Bu plant Ysgol Brynrefail hefyd yn chwysu wrth iddynt gynrychioli rhanbarth Arfon ym Mabolgampau Gwynedd. Bu perfformiadau boddhaol gan nifer o'r disgyblion gan gynnwys Manon Williams — cyntaf 300m, ac ail yn y 200m; Alun Vaughan — ail yn y 1500m. Bydd Manon yn cynrychioli Gwynedd yn y Mabolgampau Cenedlaethol.

Datblygiad diddorol ym myd athletau yw Tlws TSB. Roedd ysgolion Arfon yn cystadlu fel timau o dan 13, 14 a 16 oed, i fechgyn a genethod. Gyda chwech o ysgolion yn cystadlu cafwyd y perfformiad gorau gan y tîm bechgyn o dan 13 oed gan orffen yn ail gyda 60 pwynt.

99 . . . a heb fod allan!

Wn i ddim os ydym i longyfarch neu gydymdeimlo â Harri Jones o ail dîm Fron Dinas, wedi ei fatiad o 99 heb fod allan.

Digwyddodd yr un peth i Boycott mewn gêm brawf, ac fe redwyd Atherton allan yn y gêm brawf gyfredol. Mae Harri mewn cwmni da felly!

Ond, sut bod yn **99** heb fod allan? Mae yna ddwy ddamcanieth — un ai roedd yn well gan Harri beidio a bod allan; neu fe wyddai am y gost uchel a ddeuai o orfod prynu y 'rownd' draddodiadol ar ôl sgorio y cant cyntaf!

Oes gan rywun 1 rhediad i fenthyg?

CRICED — GÊM LEIAFRIFOL?

Yn sefyll, o'r chwith: Dylan Edwin Jones, Penisarwaun; Steven Williams; Christopher Tilston, Llanrug; Mathew Williams, Llanrug; Darren Williams, Brynrefail; Nicky Cropper, Llanrug. Yn penlinio: Goronwy Jones; Peter Smith; Harri Jones, Llanrug; Arwel Jones, Penisarwaun; Gwilym Williams, Bethel.

Nid cadarnle'r bêl-droed yn unig yw bro'r Eco o bell ffordd. Soniaid yn aml am unigolion o'r fro sy'n amryddawn ym myd y campau. Mae'n syndod, er enghraifft, bod cymaint o drigolion y fro yn ymddiddori mewn criced. Gwelais lawer ohonynt yn cefnogi Morgannwg ym Mae Colwyn yn ddiweddar. Mae llawer iawn ohonynt yn chwarae criced hefyd. Gwelir uchod lun diweddar o ail dîm Fron Dinas sy'n cynnwys amryw o fro'r Eco. Yn ogystal â'r rhai a welir yn y llun, mae sawl un arall yn chwarae i dîm cyntaf Fron Dinas ac i glybiau Bangor a Bethesda.

Rhyfedd meddwl nad oes tîm criced ym mro'r Eco. Yn sicr gellid dewin tîm gweddol gryf i gynrychioli'r fro. Oes digon o chwaraewyr i drefnu cynghrair ryngbentrefol ar gyfer yr haf nesaf? I wthio'r cwch i'r dŵr mae Bethel wedi enwi eu carfan o wyth!

Yn ôl at yr Hogs!

Roedd yna wyneb cyfarwydd iawn yn cicio pêl ar faes Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Gavin Allan oedd wedi dod adref am dipyn o seibiant cyn iddo ddechrau ar ei ail dymor gyda chlwb Tranmere Rovers. O sgwrsio ag ef roedd yn amlwg ei fod wedi ymuno â chlwb hwyliog gyda'r rheolwr yn rhoi cryn bwyslais ar i'r chwaraewyr profiadol gymysgu a thrafod gyda'r chwaraewyr ifanc. Gyda Pat Nevin a John Aldridge yno — a'r sôn bod Clayton Blackmore ar ei ffordd yno — mae yno ddigon o brofiad i'w drosglwyddo i'r ieuenctid. Gobeithiwn y bydd Gavin yn llwyddo i ennill cytundeb amser llawn ar ddiwedd y tymor nesaf ac yn sicr bydddai hynny yn symbyliad i'r hogiau yr oedd o mor barod i gicio pêl hefo nhw ar gae Brynrefail. (Byddai sôn am Wyn Davies a'r brodyr Whalley yn mynd am 'shot hefo'r hogs' i Gae Top ers talwm.)

Hoffwn gysylltu â'r erthygl hon apêl a wnaed gan John Thomas am wirfoddolwyr i gynnal timau ieuenctid y pentrefi. Wrth feithrin y gwreiddiau y daw twf a llwyddiant. Taer erfynir am eich cefnogaeth.